www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1
RHIF 511
Ebrill
2023





## Bwrlwm y Gwanwyn!

**Yntydi hi'n hyfryd gweld y wlad yn egino eto ar ôl y gaeaf?**

Dyma un o ŵyn bach Hafod Rhug Uchaf, Waunfawr a Jac yn helpu Taid a Nain ar y fferm.



## Elin Enfys

### Chwilio am Elin Enfys

Cofiwch chwilio am Elin Enfys! Mae'r arth fach yn cuddio 8 gwaith yma'n rhywle. Allwch chi ei ffeindio?



5




22



12

## Yn y rhifyn hwn:


- Macsen Wledig - **tud 7**
- Cynllun GwyrddNi i'r dyfodol - **tud 24**
- Arferion y Pasg - **tud 27**
- Ffafr orfodol: 'Boon Land', Llanddeiniolen - **tud 31**
- Ffarwel i ddau o gewri Cymru - **tud 32**

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths – post@elgangriffiths.com

## GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Swydd y gohebydd yn wag ar hyn o bryd

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

## Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

## Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

£30 Er cof am Geraint Rees Morris, Fferm Hafodty, Cwm Brwynog
£30 Er cof am Heulwen Bryn Morris, Fferm Cefn Coch, Deiniolen
£30 Er cof am Dafydd William Morris, Fferm Cefn Coch, Deiniolen
£25 Rhodd ar ran teulu y diweddar Norman Jones 'Jossyn'
£20 Di-enw

## Neges Dydd Gŵyl Dewi y Mudiadau Iaith i Gyngor Gwynedd

**Galw am arweiniad cadarn ar Addysg Cyfrwng Cymraeg**

Mewn datganiad ar y cyd mae Cymdeithas yr Iaith, Dyfodol i'r Iaith a Chylch yr Iaith yn mynegi pryder dwfn ynglŷn â bwriadau Adran Addysg Gwynedd mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r mudiadau'n galw am roi ysgolion uwchradd y sir yng nghategori uchaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ac am sefydlu trefn effeithiol o fonitro. Dyma Neges Dydd Gŵyl Dewi y mudiadau iaith i Gyngor Gwynedd.

Yn dilyn cyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, penderfynodd swyddogion Adran Addysg Cyngor Gwynedd osod yr ysgolion uwchradd (ac eithrio Ysgol Friars ac Ysgol Tywyn) yng Nghategori 3. Bydd ysgolion y categori hwn yn cynnig ystod eang o'u Meysydd Dysgu a Phrofiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd o leiaf 60% o'r disgyblion yn ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.

Yn ôl y mudiadau, dydi Categori 3 ddim yn addas ar gyfer ysgolion uwchradd Gwynedd, a hynny am y rhesymau canlynol:

1. Mae'r ymadrodd 'ystod eang' sy'n cyfeirio at nifer y Meysydd Dysgu a Phrofiad cyfrwng Cymraeg yn gwbl annelwig ac amhendant, ac felly'n ddiffygiol fel disgrifiad ac fel canllaw i'r ysgolion
2. Mae'n nodi isafswm cwbl annigonol o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond ni nodir yr uchafswm. Mae'n caniatáu i gyn lleied â chwech o bob deg disgybl dderbyn llai na thri chwarter eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda bron draean drwy'r Saesneg. Nid yw'n rhoi disgrifiad o'r ddarpariaeth fydd ar gyfer y 40% arall o'r disgyblion.
3. Mae'n annigonol i wrthsefyll a gwrthweithio'r grymusterau ieithyddol a diwylliannol sy'n erydu a thanseilio strwythur a gwead cymdeithasol y bywyd Cymraeg yng nghymunedau Gwynedd.

Mae'r mudiadau yn tynnu sylw at ganllawiau Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'n glir mai bwriad y categoreiddio newydd ydi 'annog ysgolion i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg ... a hwyluso'r broses i ysgolion symud i'r categori nesaf ... i ysgolion dyfu eu darpariaeth Gymraeg.'

Meddai'r datganiad ymhellach:

'Dylai Cyngor Gwynedd fod yn arwain gydag Addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru, a dylai anelu at gynnig yr un ddarpariaeth ag ysgolion Cymraeg dynodedig mewn siroedd eraill.

'Mae'n gwbl anfoddhaol ac annerbyniol fod disgyblion Gwynedd o aelwydydd Cymraeg ac o aelwydydd di-gymraeg yn derbyn llai o addysg cyfrwng Cymraeg na disgyblion ysgolion Cymraeg dynodedig mewn siroedd eraill. Mae pobl ifanc, rhieni a chymunedau Gwynedd yn haeddu ysgolion gyda'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fwyaf cyflawn sy'n cael ei chynnig. Hynny fyddai'n briodol yn addysgol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol. Ni ddylid colli'r cyfle hwn. Heb weithredu'n awr i wrthweithio'r tueddiadau niweidiol byddant yn ein goresgyn a bydd yn rhy ddiweddar wedyn. Rhaid edrych ar y sefyllfa'n wrthrychol ac yn onest, a gweithredu'n gadarn ac yn hyderus.'

**Cymdeithas yr Iaith, Dyfodol i'r Iaith, Cylch yr Iaith**

## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Mai | 14 Ebrill | 28 Ebrill |
| Mehefin | 12 Mai | 26 Mai |
| Gorffennaf | 9 Mehefin | 23 Mehefin |



w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k

# Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Gabrielle**. Enw'r corwynt a achosodd lanastr difrifol yn Auckland, prifddinas Seland Newydd. Lladdwyd pedwar o bobl. Roedd pob adeilad cyhoeddus ar gau, gan gynnwys llyfrgelloedd ac ysgolion. Doedd gwasanaeth trenau nac awyrennau ar gael chwaith.
- **Udo**. Gwaith ymchwil yn Budapest yn dangos fod bridiau cŵn sydd â'u genynnau'n perthyn yn agosach i fleiddiaid yn fwy tebygol o udo. Ni roddwyd eglurhad ar pa mor ddefnyddiol yw gwybodaeth o'r fath.
- **Cofrestr ysgariad**. Be nesa? Mae cwmni wedi ei sefydlu yn America (ble arall?) sy'n cofrestru ysgariad, ac yn rhoi cyfle i ffrindiau'r pâr sy'n ysgaru i brynu 'anrheg ysgariad' iddynt. Eu dadl yw – os bydd un o'r pâr wedi cael hawl ar y llestri, yr hoffai cyfeillion brynu llestri yn anrheg ysgaru i'r llall. Sgersli bilif, chwedl Ifas y Tryc.
- **Colli pwysau**. Mae gwyddonwyr yn Sweden yn credu fod gwneud ymarferion yn gynnar yn y bore yn llawer gwell i geisio colli pwysau nac ymarferion yn hwyrach yn y dydd.
- **Pen-blwydd**. BBC Cymru yn dathlu canrif o ddarlledu, ac o fewn ychydig wythnosau, BBC Scotland hefyd yn dathlu'r un pen-blwydd.
- **Cyfrifiadureg**. Prifysgolion Prydain yn adrodd fod cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr sy'n gwneud cais i astudio cyfrifiadureg – mwy nac unrhyw bwnc arall.
- **Doethuriaeth**. Dechreuodd Nick Astley baratoi ar gyfer gwneud doethuriaeth mewn mathemateg gymdeithasol, ond oherwydd rhesymau personol bu'n rhaid gohirio'r gwaith. Eleni, mae wedi cwblhau'r gwaith ac ennill ei ddoethuriaeth – hanner canrif yn ddiweddarach. Dydi hi byth yn rhy hwyr…
- **Cadeiriau gwag**. Yn Amgueddfa Flanders Field yn Ypres, Gwlad Belg roedd cadeiriau gwag wedi eu gosod i gynrychioli pob gwlad a fu'n rhan o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Maent bellach wedi eu cadw, ond gosodwyd dwy gadair wag yn eu lle; symbol o'r rhyfel rhwng Rwsia a'r Wcrain, ac yn cynrychioli'r gwacter ym mywydau pobl o'r ddwy wlad sydd wedi colli anwyliaid yn y cythrwfl.
- **Trên**. Mae'r Mint Brenhinol wedi bathu darnau dwy bunt newydd i ddathlu canrif ers i'r '*Flying Scotsman*' gael ei hadeiladu yn Doncaster yn 1923.
- **Gwanwyn pinc**. Ar ddechrau Mawrth cafodd clwstwr o goed ffawydd ar y terfyn rhwng Dyfnaint a Chernyw eu goleuo'n binc i arwyddo dyfodiad y gwanwyn. Yn ôl traddodiad yng Nghernyw mae'r gwanwyn wedi cyrraedd pan fo hanner cant o flodau'n ymddangos ar goed magnolia.
- **Gwaywffyn**. Mae pedair gwaywffon yn perthyn i frodorion cynhenid Awstralia yn cael eu dychwelyd yno o Goleg Caergrawnt. Cawsant eu cario i Loegr yn 1771 gan Capten James Cook.
- **Naegleria fowleri**. Bu gŵr o Fflorida farw ar ôl anadlu'r amoeba arbennig hwn tra'n ymolchi. Does dim perygl o gwbl os caiff ei lyncu mewn dŵr yfed, ond os caiff ei anadlu i'r trwyn, gall deithio i'r ymennydd, ac mewn achosion prin iawn, heintio'r ymennydd a lladd.
- **CO2**. Mae gwledydd yr Undeb Ewropeaidd wedi gohirio cadarnhau cyfraith yn gwahardd gwerthu cerbydau newydd sy'n cynhyrchu CO2 o 2035 ymlaen. Daw'r gohiriad yn dilyn cais gan yr Almaen i ail-edrych ar y rheoliadau o fewn y ddarpar gyfraith.
- **Cowbois**. Mae archaeolegwyr o Hwngari yn credu mai yno y datblygodd y cowbois cyntaf – hynny yw, y dynion cyntaf i farchogaeth ceffylau. Mae esgyrn dros ddau gant o bobl gyntefig sy'n dyddio'n ôl dros 3,000 o flynyddoedd cyn Crist yn dangos newidiadau ym mhatrwm esgyrn y sgerbwd sy'n awgrymu'n gryf eu bod yn marchogaeth ceffylau. Mae'r sgerbydau yn perthyn i ddiwylliant Yamnaya, a ledodd o ardal bresennol Hwngari ar draws gorllewin Ewrop.
- **Sarus Crane**. Dyma'r aderyn talaf sy'n gallu hedfan. Darganfuwyd un wedi ei anafu ymhlith gwartheg a geifr ffermwr yn yr India. Aeth y ffermwr ag ef gartref a gofalu amdano nes gallai hedfan unwaith eto – ond mae'r aderyn yn gwrthod ei adael. Mae weithiau'n hedfan i ffwrdd, ond yn dychwelyd bob nos cyn machlud haul. Pan aiff y ffermwr allan ar ei sgwter, mae'r aderyn yn hedfan gydag ef.
- **Tirlithriad**. Mae chwe diwrnod o lawogydd trymion wedi achosi tirlithriad ar ynys unig Serasan ger Borneo. Lladdwyd o leiaf chwech o bobl ac y mae mil a hanner wedi colli eu cartrefi. Mae'r gwaith achub yn anodd gan na ellir mynd a pheiriannau trwm i ardal mor anghysbell.
- **Teml Rufeinig**. Mae olion teml Rufeinig sydd bron yn 2,000 o flynyddoedd oed wedi eu darganfod mewn seler ddofn islaw Eglwys Gadeiriol Leiceter. Mae'n cadarnhau chwedl werin sy'n bod yn y ddinas ers amser maith.
- **Tân**. Yn dilyn dwy flynedd o law trwm a achosodd lifogydd difrifol yn nwyrain Awstralia, mae rhybudd bellach am danau yn sgubo drwy ardaloedd coediog sych. Mae rhybuddion allan am o leiaf 33 o danau yn nhalaith New South Wales yn unig.
- **Blodau**. Roedd dathliadau Diwrnod Rhyngwladol Merched dan fygythiad yn yr Eidal oherwydd prinder blodau'r mimosa. Yn draddodiadol, y blodau melyn hyn sy'n cael eu cyflwyno i ferched yno ar y diwrnod arbennig, ond eleni, yn dilyn prinder glaw a thymheredd uchel, nid yw'r planhigyn wedi blodeuo mewn pryd.

## Rhodd i adran gerdd Ysgol Brynrefail

Bu adran gerdd Ysgol Uwchradd Brynrefail yn elwa yn dilyn cyngerdd Nadolig Seindorf Arian Deiniolen a Chôr Meibion Dyffryn Peris.

Casglwyd £456.40 mewn rhoddion yn y cyngerdd a gynhaliwyd yn Eglwys Llanberis ar 18fed o Ragfyr. Mae'r casgliad bob blwyddyn yn mynd at achos lleol, ac eleni penderfynwyd rhoi'r arian i hybu cerddoriaeth ymysg plant a phobl ifanc yr ardal.



## Ble ga'i afael ar yr *Eco*?

Mae'r *Eco* ar werth yn y siopau canlynol:

- Y Co-op, Llanrug
- SPAR, Llanrug
- Perthyn, Bethel
- One Stop, Llanberis
- SPAR, Llanberis
- Garej Beran, Deiniolen
- Siop Waunfawr
- Garej Gwalia, Caeathro
- Caffi Maes, Caernarfon
- Siop Na-Nog, Caernarfon
- Palas Print, Caernarfon
- Siop Awen Menai, Porthaethwy


**Ydach chi eisiau derbyn copi o'r *Eco* yn rheolaidd bob mis? Tanysgrifiwch!**

Os ydach chi'n byw o fewn dalgylch yr *Eco*, pa well ffordd o wneud yn siwr na wnewch chi byth golli rhifyn na thrwy danysgrifio? Bydd ein criw o ddosbarthwyr caredig yn danfon copi drwy'r drws i chi, a gallwch arbed trafferth i chi eich hun drwy dalu o flaen llaw.

I drefnu tanysgrifiad cysylltwch â Goronwy neu Olwen Hughes ar 01286 674839 neu goronwy@lineone.net

Gellir archebu copiau drwy ebost (£10 am flwyddyn).
Gellir archebu copiau drwy'r post (£30 am flwyddyn).
Beth am roi tanysgrifiad fel rhodd i ffrind neu aelod o'r teulu sy'n byw tu allan i'r ardal?

I drefnu tanysgrifiad cysylltwch â Goronwy neu Olwen Hughes ar 01286 674839 neu goronwy@lineone.net




**Gŵyl Deiniolen a'r Cylch**
Cynhelir Disgo i blant Deiniolen a'r cyffiniau agos, ar nos Fawrth 29ain o Fawrth o 6 tan 7 yr hwyr. Pris mynediad 50c a chyfle i roi eich enw yn yr het (gyda chaniatâd rhieni) i gael bod yn Frenin neu Brenhines (Bl 6) neu yn Was neu Ferch Blodau (Bl 4 a 5) i'r Cwrt Brenhinol yng Ngharnifal Deiniolen yn yr haf.




**Noson hwyl a Chân Gŵyl Dewi Deiniolen**
Cafwyd noson o adloniant gyda thalentau a doniau lleol yn Ysgol Gwaungynfi ar 1af Mawrth. Codwyd dros £100 yr un i elusen Marie Curie a Phwyllgor Pentra Deiniolen trwy'r raffl a chyfraniadau ar y noson. Enillydd yr hamper raffl oedd Jamie Roberts. Diolch i Bwyllgor Pentra Deiniolen, fu'n cyd-weithio efo Cangen Plaid Cymru Deiniolen, i gynnal noson ddifyr a rhoi cyfle i bobl y pentref gael dod at ei gilydd i fwynhau unwaith eto.













**Diolch**
Dymuna Sian, Alaw, Urien a Nidian a'r teulu i gyd, ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli Eifion. Diolch arbennig i gymdogion gwerthfawr Rhes Faenol. Casglwyd £1,400 tuag at Uned Dydd Alaw.

Dymuna John Maldwyn a'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn dilyn y brofedigaeth o golli eu hannwyl Mair Gwynifer Jones.

Diolch i'r Parch John Pritchard a'r organyddes Manon Gwynedd ac i'r ymgymerwyr Roberts ac Owen am eu gwasanaeth a gofal.


Gwerthfawrogir yr holl roddion hael er cof am Mair tuag at Gronfa Mwynderau Plas Gwilym a Nyrsus Cymuned Arfon."

**Cylch ti a fi Deiniolen**
Mae Cylch ti a fi yn cyfarfod yn Nhŷ Elidir ar ddydd Gwener rhwng 9.30 a 10.30AM bob wythnos i rieni a phlant bach rhwng 0 a 4 mlwydd oed. Croeso i bawb i sesiynau hwyliog o ganu, stori a chrefftio mewn awyrgylch Cymreig yng nghwmni Dewin a Doti. Cysylltwch gyda'r swyddog Vicky Reid ar 07483 324 367 am fwy o wybodaeth.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Theo Hayward am ennill Gwobr Goffa Gwilym Tate, ynghyd â llechen hardd i'w chadw am flwyddyn a set hyfryd o offer celf. Mae'r englyn sydd ar y llechen i'w gweld ynghyd â llun Gwilym Tate fel Cerddlun ar dudalen 6.

Dyma Donna Taylor o Ddeiniolen yn derbyn rhodd gan John ac Alwenna, tuag at ei hymdrechion i godi arian drwy redeg marathon Llundain er cof am ei chwaer Nicola Taylor. Mae Donna yn hel pres tuag at yr elusen 'Gafal Llaw'.








# Ysgol Penisarwaun

**Dydd Gŵyl Dewi**
Cafwyd Dathliad Gŵyl Dewi yn yr ysgol gyda llawer wedi ymuno â ni a Phwyllgor y Neuadd Gymuned yn y prynhawn i ddathlu Gŵyl Ddewi. Roedd y disgyblion wedi dod i'r ysgol yn gwisgo coch gwyrdd a gwyn. Cafwyd eitemau gan blant yr ysgol a phaned a theisen gri ar y diwedd. Roedd y plant wedi mwynhau perfformio yn arw. Braf cael ail afael yn y gweithgareddau cymunedol yn dilyn y cyfnod hir o beidio gallu cymdeithasu. Braf oedd cael cymysgu a'r gymuned unwaith eto.











**Diwrnod y Llyfr**
Cawsom gyfle unwaith eto i ddathlu Diwrnod y Llyfr yn yr ysgol gyda'r staff a'r disgyblion wedi gwneud ymdrech arbennig i wisgo fel cymeriadau o lyfr. Cafwyd gwisgoedd diddorol a lliwgar a phawb wedi mwynhau gweithgareddau amrywiol.










**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Myfi Lois ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod Cylch. Daeth yn gyntaf ar yr unawd gitâr ac yn drydydd yn y gystadleuaeth llefaru i ddisgyblion blynyddoedd 3 a 4. Da iawn chdi Myfi! Pob hwyl i ti yn yr Eisteddfod Sir ddiwedd y mis!





**Gŵyl Ddewi**
Ar brynhawn Mercher, 1af Mawrth, am ddau o'r gloch, Dydd ein Nawddsant, braf oedd gweld y Neuadd yn llawn, gyda nifer o rieni ifanc a'u babanod, rhieni, neiniau a theidiau a gwarchodwyr wedi ymuno yn y dathlu. Llongyferchir y plant i gyd am eu cyfraniadau gwladgarol a chlodwiw, gyda phob un wedi gwisgo gwisg Gymreig, crys rygbi Cymru neu grys pêl-droed Cymru. Diolch i'r Pennaeth a'r staff am eu hymroddiad blynyddol yn sicrhau cyfle gwych i ni fel cymuned i gael cymdeithasu. Diolch i Jean am ofalu am y raffl hael ac i Delyth a Glyn am ofalu am y baned a'r teisennau cri a'r bara brith blasus. Diolch hefyd i gogydd Chateau Rhianfa, lle mae Delyth yn gweithio, am y teisennau cri bendigedig.

Tynnwyd Clwb Cant mis Mawrth, a'r enillwyr oedd: 1af - Elen Lewis, Penpwllcoch ac 2ail - Dafydd Ifans, Sycharth. Cofiwch fod croeso cynnes i aelodau newydd ymuno am £1 y mis neu £12 y flwyddyn, gyda'r elw'n mynd at y gost o redeg y Neuadd Gymuned. Bwriedir cynnal gweithgaredd i ddathlu'r Pasg, gan obeithio y cawn yr un gefnogaeth gref.

Cynhelir Pwyllgor Neuadd ar 21ain Mawrth am 7:00 PM gyda Phwyllgor Eisteddfod Bentref i'w ddilyn.

**Pwyllgor Eisteddfod Bentref**
Wedi seibiant o allu cynnal Eisteddfod Bentref yn ystod y Cyfnod Clo, bwriedir cynnal Eisteddfod Bentref 2023 nos Fercher, 12fed Gorffennaf am 6:00 PM, gan obeithio y cawn yr un gefnogaeth frwd arferol. Cynhelir Pwyllgor i ddewis testunau, nos Fawrth, 21ain Mawrth yn dilyn pwyllgor Neuadd, yn yr Ystafell Gymunedol.

**Profedigaeth**
Ar 7fed Chwefror, bu farw Miss Mair Foulkes, 3 Tai Hyfryd, yn 94 oed. Bu'n athrawes ym Manceinion ac wedyn yn Ysgol Maesincla. Estynnir ein cydymdeimlad llwyraf i'r teulu a theulu America a Costa Rica.

**Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd**
Y mae'r amlenni i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol wedi'u dosbarthu o gwmpas y pentref ac mae rhai eisoes wedi dod i law'r casglwyr. Gellir amgáu unrhyw swm o arian yn eich amlen, a bydd hyn yn ein helpu i gyrraedd targed Penisarwaun o £2,000. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Croeso**
Estynnir croeso cynnes i Bethany, Dafydd a Daisy, sydd wedi ymgartrefu yn 6, Bryn Hyfryd.

**Gwellhad**
Anfonir ein dymuniadau gorau i'r rhai ohonoch sydd wedi bod yn sâl, ac anfonwn ein cofion annwyl at Leslie, Dilys a Tegid, ac i Myfanwy, sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl.


**Talu am yr Eco**
Atgoffir chwi aelodau ffyddlon sy'n talu am yr Eco o fis Mawrth i fis Mawrth ei bod hi'n amser adnewyddu'r tâl o £10 y flwyddyn. Bydd ein casglwyr yn barod i dderbyn eich taliadau. Os ydych yn derbyn eich copi o'r Eco gan Ann Ifans, 01286 872407 yw ei rhif ffôn, os ydych am iddi ddod i nôl eich taliad chi.

## Gwilym Tate

Hen foi'r het a'r Cornetto, - un â steil
A'i fwstash yn cyrlio!
A'i wên yn dal i'n swyno
Heno'n fry dros fryniau'i fro.

*Tony Elliott*

Ysgrifenwyd yr englyn uchod i gofio am Gwilym Tate. Cyflwynwyd llechen i enillydd cystadleuaeth celf i blant Ysgol Gwaun Gynfi, a feirniadwyd gan ei fab Gari, yn ystod noson Hwyl Gwyl Dewi Deiniolen, gynhaliwyd ar 1af Mawrth. Cewch hanes y noson a lluniau o'r hwyl a gafwyd ar dudalen XXX.



## Gwynedd Ddigidol



Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Gwynedd Ddigidol wedi bod yn helpu trigolion Gwynedd gyda chymorth digidol o bob math - helpu pobl i ddeall eu ffonau clyfar, tabled, iPad neu i archebu tocynnau bws ar lein. Rydym hefyd yn gallu eich helpu i gael offer digidol os nad ydi'r modd gennych i brynu gliniadur, tabled neu ffôn.

Fe fydd Gwynedd Ddigidol yn mynd o amgylch hybiau yng Ngwynedd am y misoedd nesaf yn bennaf i helpu trigolion sy'n cael trafferth ddigidol gyda phethau megis gwefan y cyngor sir ar gostau byw, neu gymorth gydag adnabod sgamiau. Cewch help gydag apiau a fuasai'n eich cynorthwyo i arbed arian a chael bwyd yn rhatach.

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu rhai o'r sesiynau yma plîs jyst dewch draw i Gaffi EB's Deiniolen bob dydd Llun rhwng 10.00AM-12.00PM.

Un o'r bobl sydd wedi derbyn cymorth gennym ydi Alan. Mae Alan wedi derbyn tabled gennym ac mae o wedi bod yn dod i'n sesiynau ni yn un o'n hybiau i ddysgu sgiliau digidol. Mae wedi canfod bod hyn wedi ei gwneud yn haws i reoli ei anabledd, gan gynnwys gallu cymryd rhan yn ei sesiynau ffisiotherapi wythnosol dros Zoom; cadw mewn cysylltiad â'r elusen Dystroffi Cyhyrol – MDUK; ymchwilio i'w salwch ar-lein a chadw i fyny â'r datblygiadau yn y maes meddygol hwn.

Mae Alan hefyd wedi dysgu sut i ddefnyddio e-bost ac mae ei gyfrif ar-lein yn effeithiol i rannu pethau gyda'i deulu. Mae wedi dod o hyd i ddefnydd arall ar gyfer y tabled hefyd, fel gwylio ffilmiau ar-lein, ac mae'n gwneud hyn gyda'i glustffonau ymlaen fel nad yw'n tarfu ar weddill y teulu.

Dywedodd Alan fod hyn yn helpu gyda'i iechyd meddwl hefyd. Disgrifia Alan y gefnogaeth a gafodd:

'Mae'r sesiynau hyn wedi rhoi llawer o hyder i mi oedd yn arfer bod yn berson di hyder. Hoffwn ddiolch i Wynedd Ddigidol a Citizens Online am eu gwaith caled. Rwy'n teimlo y gallaf bob amser ddod yn ôl am fwy o gefnogaeth os bydd ei angen arnaf'.



# Macsen Wledig


*Dwyt ti'm yn cofio Macsen*
*Does neb yn ei nabod o*
*Mae mil a chwe chant o flynyddoedd*
*Yn amser rhy hir i'r cof*
*Pan aeth Magnus Maximus o Gymru*
*Yn y flwyddyn 383*
*A'n gadael yn genedl gyfan*
*A heddiw, wele ni*

Dyma enw arall sy'n ymddangos ym maled 'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan. Pwy oedd y Macsen yma?

Rheolwr yr Ymerodraeth Rufeinig Orllewinol oedd Macsen Wledig (Lladin: Magnus Maximus) o 383 tan ei farwolaeth ym 388.

Celt-Iberiad (Celt o'r Sbaen Rufeinig) oedd Macsen, a ddaeth i ynysoedd Prydain yn y 360au. Cafodd ei orseddu yn Ymerawdwr gan ei fyddin tra roedd ef a hwy yn gwasanaethu yng ngwledydd Prydain ac roedd yn Gristion.

Rhannwyd yr ymerodraeth Rufeinig yn ddwy ac felly roedd rhaid cael dau ymerawdwr. 'Mae ymerodraeth Macsen mewn coch ar y map'.




Yn ôl y chwedl Gymreig ganoloesol *Breuddwyd Macsen Wledig*, priododd Macsen Elen Luyddog, merch Eudaf o ardal Segontium, y gaer Rufeinig ger Caernarfon, ac mae peth tystiolaeth bod y stori yn wir. Yn yr achau Cymreig nodir Sant Peblig ac Owain fab Macsen Wledig yn feibion Macsen ac Elen.

Yn ôl y traddodiad Cymreig, Macsen oedd yn gyfrifol am ymadawiad lluoedd Rhufain o Gymru 20 mlynedd cyn gweddill Prydain. Gadawodd Macsen diroedd Cymru yn nwylo'r bobl frodorol, gan gyflwyno trefn o hunanlywodraeth a barodd tua naw cant o flynyddoedd. Am y rheswm hwnnw, mae Macsen wedi ei ystyried yn 'Dad y Genedl Gymreig'.

Dywed Gwynfor Evans mai'r Cymry yn unig, o holl bobloedd yr Ymerodraeth, wrthsafodd y Germaniaid yn llwyddiannus yn dilyn cwymp yr Ymerodraeth Rufeinig, a bu'r drefn a gyflwynodd Macsen yn un o'r rhesymau pennaf dros hynny.

Mae fersiynau chwedlonol o yrfa Macsen lle mae'n priodi'r dywysoges Gymreig Elen wedi cylchredeg mewn traddodiad poblogaidd yn yr ardaloedd Cymraeg o gyfnod cynnar. Er bod stori cyfarfod Elen ag ef bron yn sicr yn ffuglen, mae rhywfaint o dystiolaeth i'r honiadau sylfaenol. Rhoddir lle amlwg iddo yn y fersiwn cynharaf o'r Trioedd Cymreig [https://cy.wikipedia.org/wiki/Trioedd_Ynys_Prydain] y credir ei fod yn dyddio o c. 1100 ac sy'n adlewyrchu traddodiadau hŷn. Mae barddoniaeth Gymraeg hefyd yn cyfeirio'n aml at Macsen fel ffigwr i'w gymharu ag arweinwyr Cymreig diweddarach.

Yn ei freuddwyd mae Macsen Wledig, Ymerawdwr Rhufain, yn gweld morwyn hyfryd mewn gwlad ryfeddol, bell. Wedi deffro, mae'n anfon ei ddynion ledled y ddaear i chwilio amdani. Gyda llawer o anhawster maent yn dod o hyd iddi mewn castell cyfoethog yng Nghymru, yn ferch i bennaeth yn Segontium (Caernarfon), ac yn arwain yr Ymerawdwr ati. Mae popeth y mae'n ei ddarganfod yn union fel yn ei freuddwyd. Mae'r forwyn, a'i henw Helen neu Elen, yn ei dderbyn a'i garu. Oherwydd bod Elen yn forwyn, mae Macsen yn rhoi sofraniaeth i'w thad dros ynys Prydain ac yn gorchymyn codi tri chastell i'w briodferch.

Yn absenoldeb Macsen, mae ymerawdwr newydd yn cipio grym yn Rhufain. Gyda chymorth gwŷr o Brydain dan arweiniad brawd Elen, sef Cynan Meriadoc (Lladin - Conanus) gorymdeithiodd Macsen ar draws Gâl (gorllewin Ewrop) ac i'r Eidal gan ail-gipio Rhufain. Mewn diolch mae Macsen yn gwobrwyo'r Cymry â rhan o Gâl, sef Llydaw. Lladdwyd Macsen mewn brwydr yn fuan wedyn, rhywle yng Nghymru yn ôl y traddodiad.

Roedd Helen (Elen) yn teithio ar hyd y ffordd yn Eryri pan gafodd y newyddion blin am ei gŵr. Ger ffynnon fe blygodd i'w gliniau a llefain "croes awr i mi yw hon", gorweddodd a bu farw. Dyna pam mai Croesor ydi enw'r pentref. Roedd gan Ysgol Gynradd Croesor furlun mewn teilsen o'r chwedl a luniwyd gan y plant yn y 1970au oedd yn ymestyn ar hyd wal yr ysgol.

Ymhellach rhoddir Macsen yn gyn dad i frenin Cymreig ar Golofn neu Groes Eliseg, a godwyd yn agos i 500 mlynedd ar ôl iddo ymadael â Chymru. Mae Croes Eliseg yn golofn sy'n coffau Elisedd ap Gwylog (bu farw c. 755), brenin Powys. Saif yn agos i Abaty Glyn y Groes, ger Llangollen, Sir Ddinbych.

Mae Macsen hefyd yn ymddangos ar restrau y Pymtheg Llwyth Gwynedd, grëwyd gan y beirdd yn y bymthegfed ganrif. Mae Pymtheg Llwyth Gwynedd, neu weithiau gelwid nhw'n Bymtheg Llwyth Cymru, yn cyfeirio at 15 rhestr o linach



*Mae'r arysgrif Lladin ar y golofn bron yn amhosibl i'w ddarllen heddiw, ond yr oedd yn gliriach yn oes Edward Llwyd a wnaeth gopi ohono. (Credir mai camgymeriad y cerfiwr oedd rhoi Eliseg yn lle Elisedd ar y golofn.)*

*Cafodd abaty Glyn y Groes ('Valle Crucis') gerllaw ei enw o'r golofn. Heddiw mae dan ofalaeth Cadw ,a cheir atgynhyrchiad o'r groes yn Amgueddfa Llangollen.*

teuluoedd yr uchelwyr Cymreig. Roedd medru adrodd hanes llinach eich teulu'r adeg honno yn ddisgwyliedig gan bob bonheddwr, ac yn grefft ynddi ei hun, cyn hired roeddynt.

Yn ôl traddodiad, Macsen ac Elen oedd rhieni Sant Peblig, ac enwyd yr eglwys ar ei ôl yng Nghaernarfon. Mae'r eglwys wedi'i hadeiladu ar safle teml Rufeinig a daethpwyd o hyd i allor Rufeinig yn un o'r waliau yn ystod gwaith adfer yn y 19eg ganrif. Mae'r eglwys bresennol yn dyddio'n bennaf o'r 14eg ganrif.

Cafodd y brenin Seisnig canoloesol, Edward y Cyntaf, ei ddylanwadu gan freuddwyd chwedlonol Macsen Wledig a chymrodd fantais o hyn wrth adeiladu ei gastell goresgynnol yng Nghaernarfon yn 1283.


Yn y freuddwyd roedd Macsen wedi gweld caer, "y decaf a welodd dyn erioed", o fewn dinas wrth geg afon mewn gwlad fynyddig, gyferbyn ag ynys. Dehonglwyd hyn gan Edward, i olygu mai Segontium oedd dinas breuddwyd Macsen. Mae'r castell a'i thyrau amlochrog a'i cherrig amryliw yn adlewyrchu hyn ac yn wahanol iawn i'w gestyll eraill i gadw ni'r Cymry yn ein lle.

Ar y pryd costiodd tua £25,000 i'w godi sydd heddiw gyfwerth a tua £40 biliwn – tipyn o bris i'n goresgyn.

**Gwyndaf Hughes**




FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com




BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS

**Diolch**
Dymuna John Maldwyn a'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli eu hannwyl Mair Gwynifer Jones.

Diolch i'r Parchg John Pritchard a'r organyddes Manon Gwynedd ac i'r ymgymerwyr Roberts ac Owen am eu gwasanaeth a'u gofal. Gwerthfawrogir yr holl roddion er cof am Mair a rannwyd rhwng Cronfa Mwynderau Plas Gwilym a Nyrsys Cymunedol Arfon.

**Gair o ddiolch**
Dymuna Deilwen, Gwyndaf, Garmon, Siôn a Manon a'r teulu oll ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Elwyn, gŵr a thad annwyl ac arbennig iawn ddechrau'r flwyddyn hon.

Diolchir am yr holl ymweliadau, y galwadau ffôn, y llythyrau, cardiau a'r rhoddion hael. Bu'r cyfan yn gysur mawr i'r teulu. Diolch hefyd i feddygon a staff Meddygfa Waunfawr, Nyrsys Cymunedol ac i dîm cymunedol Tuag Adref am eu gofal arbennig yn y misoedd diwethaf.

Diolch i'r Parchg Nerys Griffith am lywio'r gwasanaeth, ac i'r Prifardd Ieuan Wyn am ei deyrnged feistrolgar a draddododd gydag urddas. Hefyd i Mrs Menai Williams am ei gwaith wrth yr organ, ac i Glwb Rygbi Bethesda am baratoi lluniaeth ardderchog. Diolch i gwmni Dylan Griffith am eu trefniadau trylwyr, gofalus ac urddasol. Gwerthfawrogir yn arbennig y cyfraniadau hael a dderbyniwyd er cof am Elwyn tuag at Feddygfa Waunfawr a thîm Tuag Adref.

Yn y rhifyn hwn cynhwysir englynion coffa arbennig i Elwyn gan ddau gyfaill, y Prifeirdd Ieuan Wyn ac Alan Llwyd.

**Cydymdeimlo**
Wrth ddanfon ein cofion at Nan Owen, Berwyn gynt, draw yng Nghartref Willow Hall, Caernarfon rydym yn cydymdeimlo a hi o golli ei brawd Harri Hughes, draw yn y Rhyl. Bydd cof da am Harri am ei wasanaeth mewn sawl maes. Fe gofir yn bennaf am ei wasanaeth dros sawl blwyddyn yng Ngwasanaeth Tân y Gogledd.

Yr un yw ein cydymdeimlad â Ceinwen Williams a'r teulu draw yng Nghefn Gwyn. Bu i Ceinwen hefyd golli ei brawd Dafydd. Un o hogiau Brynsiencyn, yn boblogaidd iawn gan ei gyfoedion ac un a chanddo barch mawr at ei wreiddiau. Yn ŵr ifanc, bu Dafydd yn serennu ar y maes pêl-droed gan chwarae'n broffesiynol i ambell glwb yng Nghynghrair Lloegr.

Trist cofnodi marwolaeth Judith Jones, Erw Terrace, Saron. Bu Judith yma ym Methel am 30 mlynedd, ac roedd yn boblogaidd gyda'i chyfoedion. Parod ei sgwrs a'i chymwynas, ac acen y Geredigion enedigol yn dal i fritho'r sgwrs. Bu'n warden gweithgar yn Eglwys Llanddeiniolen am sawl blwyddyn. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyth a chyflwynwyd y rhoddion er cof at Gronfa Offer Ysbyty Gwynedd.



**Llwyddiant**
Enillodd Richard Lloyd Jones ar gystadlaethau'r Gadair Her a'r Englyn yn Eisteddfod Cymdeithas Ceredigion yn ddiweddar. Testun yr englyn oedd Map, a'r beirniad oedd y Prifardd Hywel Griffiths. Mae'r enillydd yn dal y gadair am flwyddyn. Cynlluniwyd y gadair gan y saer gwlad Eirwyn Pontsian dros 30 o flynyddoedd yn ôl. Yn y llun gwelir Idwal, mab Eirwyn, yn cyflwyno'r gadair i Richard.

**Dymuniadau**
Mae rhai o'r pentref un ai yn yr ysbyty neu wedi dychwelyd adref erbyn hyn. Dymunwn adferiad buan iddynt. Cyfeiriwn y mis yma at Anne Elis sydd wedi cael llawdriniaeth clun newydd yn ddiweddar. Brysiwch wella, ond traed i fyny am gyfnod Anne. I chwi sydd yng nghylch dosbarthu'r Eco gan Anne fe fyddaf i yn eilydd iddi dros y misoedd nesaf, felly fe ddaw yr Eco acw yn brydlon fel arfer.

**Talu am ei le**
Mae yn donic oedi ger Hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned ger yr Ysgol. Yno'n drefnus, lliwgar ac amserol mae hysbysebion am yr amrywiol weithgareddau cymdeithasol yn y pentref. Braf nodi'r amrywiaeth sydd wedi ei anelu at bob oed, boed yn gymdeithasol neu elusennol. Diolch i'r sawl sydd yn trefnu ac i chwithau bentrefwyr am eich cefnogaeth barod. Cofiwch, fel yr Eco, mai eich adnodd CHI yw'r hysbysfwrdd. Ein her fydd ei gadw'n llawn.

**Oedfaon Ebrill**
**Cysegr**: 2il, Y Gweinidog; 9fed (Pasg), Undebol yn Llanrug (Cymun); 16eg, Y Parchg Trefor Lewis; 23ain, Y Parchg Dewi Morris; 30ain, Y Gweinidog.
**Bethel**: 2il, Y Parchg R O Jones; 9fed, Y Parchg R E Hughes; 30ain, Y Parchg Gerallt Evans.

**Llongyfarchiadau**
Ar 15fed Mawrth, roedd Marjorie Roberts, Tŷ Newydd, yn dathlu pen-blwydd 'arbennig'. Gobeithio iddi gael diwrnod braf o atgofion. Ymlaen rwan Marjorie, cam wrth gam.

**I atgoffa**
Mae'r mwyafrif ohonoch sy'n derbyn yr Eco yn talu ymlaen llaw am y flwyddyn. Mae nifer ohonoch eisoes wedi talu y £10 blynyddol sy'n rhoddi un rhifyn yn ddi-dâl i chwi. Allwch chi roddi'r arian i'r dosbarthwyr os gwelwch yn dda? Os gwyddoch am rai sydd eisiau derbyn yr Eco yn fisol, gellir ei brynu bellach yn Perthyn am y gost arferol o £1. Braf cofnodi fod y rhifau gwerthiant ym Methel yn dal eu tir.

**Newyddion da**
Er mor dorcalonnus yw cofnodi'r difrod ar gysgodfannau bws ledled y plwyf mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen wedi pleidleisio i ddymchwel ac ail sefydlu cysgodfan arall yng ngwaelod y pentref. Sawl gwaith dros y blynyddoedd clywyd y gri, "Gobeithio y caiff lonydd". Mae'r gost o gwblhau'r gwaith o gwmpas £3,000. Beth yw pris parch, tybed?

**Clwb Bro Bethel**
Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Festri'r Cysegr ar bnawn Mawrth, 4ydd Ebrill am 1.30pm. Y wraig wadd fydd Deryl Jones, Eglwysbach. Dewch draw am adloniant, sgwrs a phaned.



**Diwrnod Aren y Byd**
I gyd redeg â'r diwrnod ymwybyddiaeth arbennig yma (9fed Mawrth) trefnwyd Te Pnawn / Bingo/ Raffl yn Perthyn. Y noson ganlynol roedd 'Noson Hwyl i'r Teulu' wedi ei drefnu yn y Neuadd Goffa. Daeth yr eira'n gwrlid yn yr oriau mân, ond roedd wedi dadmer erbyn y noson honno. Er yr oerfel, denwyd saith 'tîm teulu' i herio'i gilydd mewn cystadlaethau hwyliog. Yn y ddau ddigwyddiad clywyd yr un cwestiwn, "Pryd mae'r nesaf?' Trefnu, hysbysebu, llwyddiant. Ac yn y cyswllt yma, achos teilwng iawn.

Y prif ysgogydd oedd Zoe Jones, a hithau'n ddiweddar wedi derbyn aren gan ei brawd Louis. Braf cofnodi bod y ddau wedi cael ymateb positif i'r trawsblaniad angenrheidiol yma. Hoffai Zoe ddiolch i'w chyd-drefnwyr ac yn bennaf i'r rhai a gefnogodd y ddau achlysur ac am eu cyfraniad ariannol. Ac i gogydd y te pnawn, yn unfrydol 10/10!



**Merched y Wawr**
Cyfarfu'r gangen o Ferched y Wawr ar 8fed Mawrth a chafwyd noson hwyliog dros ben. Yn hytrach na mynd allan i ddathlu gwyl Ddewi eleni cafwyd noson 'adref' oherwydd yn garedig iawn cynigiodd ein trysorydd Eirlys Williams wneud cawl cennin i bawb. Diolchwyd iddi yn gynnes iawn gan yr holl aelodau am baratoi cawl mor eithriadol o flasus. Cafwyd paned o de a chacen gri i orffen y pryd. Roedd Gwenan ein hysgrifennydd yn methu â bod yn bresennol ond roedd wedi paratoi gêm chwilod i ddiddanu pawb, ac fe arweiniodd Mair Read y digwyddiad yn ddeheuig iawn, gyda Rhian Hughes yn fuddugol.

Anfonwyd ein cofion at Anne Elis sydd wedi derbyn llawdriniaeth, at Elizabeth Pen Parc sy'n well ar ôl gwaeledd ac at Glenys Griffith sydd wedi torri ei choes. Yn haeddiannol iawn enillodd Eirlys a raffl ac Eryl yr ail wobr.

Bydd ein cyfarfod nesaf nos Fercher Ebrill y 12fed, pryd y daw Meinir Owen atom i son am hanesion ei nain am longddrylliad y 'Royal Charter'.



**Adran yr Urdd, Bethel**
Ein gweithgaredd diweddaraf o fewn yr Adran oedd noson o dan ofal Simon Thomas o'r Urdd.

Cafodd y plant hwyl yn creu crys rygbi Cymru, gan ymarfer eu sgiliau origami a chawsom ddisgo tawel i ddilyn gyda phawb yn mwynhau dawnsio a chanu - yn DAWEL!!

Bydd ein gweithgaredd nesaf ar nos Wener, 31ain Mawrth, gyda noson o yoga dan ofal Mrs Wendy Ostler. Edrychwn ymlaen!

Llongyfarchiadau mawr i bawb o'r adran fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch yn Ysgol Brynrefail ar nos Wener y 3ydd a'r nos Lun, y 6ed o Fawrth. Pob dymuniad da i bawb sy'n mynd trwodd i'r Eisteddfod Sir ar Fawrth 25ain yn Pontio, Bangor.









**Cyngor Cymuned Llanddeiniolen**
Sedd wag Bethel.
Tybed oes rhywun a diddordeb i ymuno â'r Cyngor i gynrychioli ward Bethel? Hwn yw eich cyfle i ymuno â'r Cyngor i gydweithio dros eich ardal. Telir cydnabyddiaeth o £156 y flwyddyn.

Am fwy o fanylion neu wybodaeth pellach, cysylltwch â Eleri Bean
Clerc a Swyddog Ariannol
Bwthyn Isaf
Deiniolen
LL55 3LS
01286 871757

**O Siambr Sasha**
Dyma ymateb i gais Rich am fraslun diweddaraf i chwi. Mis arall wedi mynd.

Rwy'n dechrau cynefino â dull y Cyngor Sir o weithio bellach a pha un yw'r adran benodol ar gyfer yr amrywiaeth o gwynion/ymholiadau sy'n cyrraedd acw. Trueni na allwn sefydlu adran fuasai'n rhyddhau ein pentrefi o broblem afiach y baw cŵn. Cŵn rhai o drigolion ein pentref NI sydd yn euog.

Yn ystod y mis diwethaf aeth y mwyafrif o'm hamser i gefnogi menter newydd caffi Perthyn. Yn ddi-os, mae agor y drysau wedi apelio at nifer foddhaol o bentrefwyr/ardalwyr, a'r arlwy o baned, cacen neu bryd bwyd yn plesio. Diolch yn arbennig am y gwirfoddolwyr a'r rota benodol o ddwylo yn gweithio yno, yn gefn i'r staff. Mae'r sesiynau Croeso Cynnes yn parhau tan ddiwedd Mawrth – nosweithiau Iau/Gwener 4.00-6.00pm. Hynod boblogaidd yw'r sesiynau ioga, paned a chacen ar foreau Mawrth am 10.00am. Mor llwyddiannus yw'r fenter hon fel bod Gwen am ymestyn y gweithgaredd wedi i ddyddiad penodol y grant ddod i ben. Agwedd boblogaidd arall yw'r Adran Llyfrgell. Diolch am y cyfranwyr eto. Ar hyn o bryd, rwyf i a phwyllgor Perthyn yn ymgeisio am grant gan y Cyngor Sir i ymestyn apêl a gweithgaredd yr adnodd. Newyddion da ar y ffordd gobeithio.

O'r Cynghorau: Bu sawl is-bwyllgor a chyfarfod llawn yn ddiweddar. Y prif fater oedd pennu treth y Cyngor am y flwyddyn. Wedi cryn drafod, braf cofnodi fod cyfradd Gwynedd ymysg yr isaf led-led Cymru. Mae Cyngor Llanddeiniolen wedi cytuno i noddi Clybiau Ieuenctid Bethel a Deiniolen am flwyddyn arall. Diolch yn fawr. Fel cyd-gynghorydd ward y Felinheli, byddaf yn cyfarfod â Chyngor y Felinheli wythnos nesaf i geisio eu cael i gyd-synio â Llanddeiniolen. Mae 60 wedi ymaelodi â chlwb Bethel, gyda rhyw 30 ar gyfartaledd yn mynychu'n wythnosol. Diolch i Ffion, Mirain a Carwyn am drefnu'r gwahanol weithgareddau, ac mae nifer ohonynt yn ymwneud â gwaith cymunedol. Diolch i chwi i gyd. Mae Cyngor Llanddeiniolen hefyd wedi cytuno i wella safon y gysgodfan bws ar waelod y pentref.

Diolch i Catrin am ei harweiniad i Glwb Ti a Fi yn y Neuadd rhwng 9.15 a 10.45am ar fore Mercher. Galwch draw. Mae'r rhifau'n cynyddu. Yn boblogaidd yn ddiweddar oedd y sesiynau Cymraeg i Blant wedi eu trefnu gan Wasanaeth Llyfrgell y Sir.

Mae rhai problemau yn aros yn hir, yn enwedig broblemau baw cŵn a pharcio yma ym Methel. Dyfal donc … gobeithio!

Dyna ni am fis arall o grafu pen yn chwilio am ateb i rai o'r problemau yma. Ond gyda'ch cymorth a chyd-weithio, efallai y gwelwn ni'r golau ar ben draw'r twnnel yn y dyfodol agos. Cofiwch anfon unrhyw gwestiwn neu awgrym ataf – 07810174160 neu cynghorydd.sashawilliams@gwynedd.llyw.cymru.

# CAEATHRO

**Capel**
Ar yr 2il o Ebrill, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Anne Griffiths, i gychwyn am 2.00 pm.

Bydd Gwasanaeth Undebol Sul y Pasg yn cael ei gynnal dan arweiniad gweinidog newydd Gofalaeth Seiont ac Ogwen, y Parchedig Nerys Anne Griffiths, yng Nghapel y Rhos, Llanrug ar y 9fed o Ebrill. Mae'r gwasanaeth i gychwyn am 10.00 am.

Ar y 23ain o Ebrill, bydd gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Glenys Jones.

**Apêl am newyddion**
Cofiwch yrru unrhyw newyddion sydd gennych i'w gynnwys yn yr Eco ataf trwy e-bost – lowriceiriog@hotmail.co.uk.

**Eisteddfod**
Pob lwc i holl blant a phobl ifanc y pentref a'r cyffiniau fydd yn cystadlu yn yr eisteddfodau lleol dros yr wythnosau nesaf!

# LLANBERIS

**Cais am newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco. Diolch yn fawr.

Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y Pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis**
Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00 tan 7.30 pm, Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnio**
Cynhelir yn y Ganolfan ar brynhawn dydd Iau, 2.00 - 4.00 pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Huw Owen a ddaeth yn ail yng Nghystadleuaeth Cân i Gymru 2023, yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, yn ddiweddar. Mae Huw yn fab i Dafydd a Helen, ac yn ŵyr i Nan Owen, Rhes Efrog. Fe ysgrifennodd ei gân fuddugol, 'Cân i Mam', yn dilyn brwydr ei fam pan gafodd gancr gwpwl o flynyddoedd yn ôl. Bu Huw yn byw yng Nghaerdydd am 8 mlynedd, wrth weithio fel cyflwynydd ar wasanaeth plant, Cyw, gyda S4C. Erbyn hyn mae Huw yn ôl gyda ni yn Llanberis ac yn gweithio fel cyflwynydd llawrydd ac fel trydanwr gyda'i dad a'i frawd Tomos. Da iawn chdi, Huw.

**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10.30 am a 2.00 pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Eglwys Sant Padarn**
Gwasanaethau'r Pasg a Mis Ebrill
2 Ebrill, Sul y Blodau, 11.00 am - Cymun Bendigaid
6 Ebrill, Dydd Iau Cablyd - Gwasanaeth Unedig Bro Eryri yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun am 7.00 pm
7 Ebrill, 2.00 pm - Myfyrdod Dydd Gwener y Groglith
9 Ebrill, Sul y Pasg, 11.00 am - Cymun Bendigaid
16 Ebrill, 11.00 am - Boreol Weddi
23 Ebrill, 8.00 am - Cymun Bendigaid, 11.00 am - Gwasanaeth Teulu
30 Ebrill, 11.00 am - Cymun Bendigaid, 5.00 pm - gwasanaeth unedig Bro Eryri yn Eglwys Deiniolen Sant, Llanddeiniolen

**Enillwyr Clwb Cant:**
Mis Ionawr - 1) Owain Rees Jones, 2) Sheila Roberts 3) Gwyneth Jones
Mis Chwefror - 1) Mary Lynn Carr 2) Suzanne Fisher 3) Owain Rees Jones
Mae croeso i unrhyw un ymuno a'r Clwb Cant, bydd y flwyddyn newydd yn dechrau ym mis Ebrill. Tâl am y flwyddyn yw £24, gyda thair gwobr bob mis. Os am ymuno, cysylltwch â Heather ar 07867982518 neu Dilys ar 01286871423 neu unrhyw aelod o'r eglwys.









# Clwb Cerdded Bethel

Diolch i Gwen Lasarus James am yr adroddiad y mis hwn:

Ardal Llanberis fu'r gyrchfan y tro hwn. Rhai yn cychwyn o Ben Llyn, eraill o'r Lagŵns a chyd-gyfarfod yn y pentref. Wedi cyfrif pennau, cerdded gyda glan y llyn gan anelu at Gastell Dolbadarn ar y bryn. Un o gestyll lleiaf Cymru. Croesi'r Afon Goch a thrwy'r coed i gyrraedd y castell. Yno tynnwyd y llun grŵp y tro yma.



Troi i'r dde, a chyrraedd tu cefn i Westy'r Fictoria. Drwy goedlan arall wedyn gan anelu at gaffi Pen y Ceunant Isaf. Dyma hen lwybr y pererinion, ac yn brawf ar ochr y ffordd roedd craig solet a chroes wedi ei naddu iddi. Braf oedd cyrraedd drws agored y caffi a Steven yno'n barod â phaned, bara brith ac ambell i stori i'n bwydo a'n diddori. Ffarwelio â Steven a'i labrador, ac ymlaen i lwybr yr Wyddfa. Dyma diriogaeth Hafoty Newydd, Clogwyn y Gwin a'r Ffridd Uchaf. Pwysig felly fod unrhyw gi ar dennyn.

Blasu awyr iach yr ucheldir, a rhyfeddu at fawredd yr olygfa o'n cwmpas. Mor fychan ydym yng nghysgod natur. Rhan annatod o'r cerdded yw'r sgwrs a darganfod sawl ffaith ddiddorol neu fagu cysylltiad. Clwb Bowlio ym Methel! Un hwyliog, parod ei groeso. Tyrd draw. Wyddwn i ddim. Ble rydw i wedi bod yn cuddio ers blynyddoedd?

Croesi Gwaun Cwm Brwynog gan edrych i fyny at Fwlch Maesgwm ym mhen uchaf Cwm Brwynog. Dyma hen diriogaeth y Prifardd/ Archdderwydd R. Bryn Williams. Cael gwybod fod hen gaer ar y copa. Edrych draw at graith Chwarel y Gilfach Ddu. Yna troi yn yr heulwen ac edrych draw at y Fenai a Môn yn berlau mewn coron o brydferthwch.

I lawr wedyn heibio cefnau Hafod Lydan a Chae'r Frân. Ail gyfarfod â'r Afon Goch ac ymlaen at Maenllwyd a thai cyntaf pentref Llanberis. Dilyn 'Rallt Goch i ganol y pentref. Caffi eiconic y dringwyr – Pete's Eats – bellach wedi cau. Gresynu hefyd wrth ddychwelyd i'n moduron bod ein hymweliad â'n doe naturiol yn prysur ddod i ben a ninnau'n dychwelyd i realaeth byd go iawn heddiw. Cyn ffarwelio, cyfrif pennau. Pawb yno, ac adref â ni yn fodlon at baned gynnes.

# LLANBERIS A NANT PERIS


Grŵp Pentref Taclus Llanberis

## Meinciau


Aelodau Pwyllgor Carnifal Llanberis 1967-2002

Gosodwyd yn ddiweddar feinciau a bwrdd picnic newydd ar lan y llyn ac ar y bandstand ger y maes parcio ar lan Llyn Padarn. Gwnaed y bwrdd a'r meinciau gan Fenter Fachwen. Talwyd am dair o'r meinciau gan grŵp Pentref Taclus Llanberis a thalwyd am y fainc arall a'r bwrdd picnic gan Bwyllgor Carnifal Llanberis 1967-2002. Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r ddau grŵp dros y blynyddoedd, a diolch i gynrychiolwyr a gweithwyr y ddau grŵp am eu holl waith dros drigolion Llanberis a'r gymuned ehangach sydd wedi elwa o'u holl ymdrechion.



Y meinciau ar y bandstand












**Eglwys Sant Peris**
Gwasanaethau'r Pasg a mis Ebrill
2 Ebrill, Sul y Blodau, 9.30 am - Cymun Bendigaid, 4.00 pm - Gwasanaeth Teulu
6 Ebrill, Dydd Iau Cablyd - gwasanaeth unedig Bro Eryri yn eglwys Santes Helen, Penisarwaun am 7.00 pm
8 Ebrill, 7.00 pm - Gwylnos y Pasg a Chymun Cyntaf y Pasg
16 Ebrill, 9.30 am - Boreol Weddi
23 Ebrill 9.30 am - Cymun Bendigaid
30 Ebrill, 9.30 am - Cymun Bendigaid, 5.00 pm - gwasanaeth unedig Bro Eryri yn Eglwys Deiniolen Sant, Llanddeiniolen.

**Capel Coch**
Cynhelir ein hoedfaon bore Sul yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Dyma drefn yr oedfaon dros y mis nesaf:

26ain Mawrth: Y Gweinidog
2il Ebrill (Sul y Blodau): Y Gweinidog
9fed Ebrill: Y Gweinidog
16eg Ebrill: Y Parchg Glenys Jones
23ain Ebrill: Y Gweinidog:
30ain Ebrill: Mr John Roberts

Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch bob bore Sul.

Bydd Oedfa Gymun dan ofal y Gweinidog, y Parchg John Pritchard, am 10.00 o'r gloch fore Gwener y Groglith, 7fed Ebrill.

**Diolch**
Wedi blynyddoedd o wasanaeth fel Ysgrifennydd Capel Coch, mae Miss Dilys Mai Roberts wedi ymddeol o'r swydd. Mae ei chyd-aelodau yn ddiolchgar iddi am ei harweiniad a'i holl waith dros y blynyddoedd, ac yn anfon eu dymuniadau da a'u cofion ati. Gwerthfawrogir yn fawr ei ffyddlondeb a'i brwdfrydedd a'i gofal dros waith yr eglwys. Rydym yn falch o fedru dweud y bydd Dilys yn parhau i wasanaethu fel un o flaenoriaid yr eglwys, a bydd yr eglwys felly'n parhau i elwa o'i harweiniad a'i doethineb.

Mr Gareth Jones sy'n cymryd drosodd ran o waith yr Ysgrifennydd trwy fod yn gyfrifol am drefnu pregethwyr y Sul, a diolchwn iddo am fod yn barod i wneud y gwaith hwnnw. Gobeithiwn benodi Ysgrifennydd newydd yn fuan.

# Ysgol Dolbadarn

**Diwrnod Golchi**
Dyma ddisgyblion blwyddyn 2 yn mwynhau sesiwn 'Diwrnod Golchi' yn yr Amgueddfa Lechi. Cafwyd y cyfle i deithio'n ôl mewn amser gyda Anti Margiad yn ogystal â mwynhau gweithdy creu sebon yn defnyddio amrywiaeth o flodau gwyllt.














Dyma ddisgyblion Cyfnod Sylfaen Ysgol Dolbadarn yn cymryd rhan mewn sesiynau Camau Cerdd. Diolch Marie Claire a Malan.












**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Mabon Pritchard, Llys Meredydd, ar raddio fel parafeddyg a derbyn swydd efo Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd-orllewin Lloegr ym Manceinion. Mae dy deulu a gweddill y pentref yn falch iawn ohonot Mabon. Dymuniadau gorau i chdi wrth i ti ymgymryd â'r swydd anodd ond gwerth chweil hon.

Llongyfarchiadau hefyd i Ron a Meira Turner a fu'n dathlu priodas ddiemwnt yn ddiweddar. Yng nghanol y dathlu, bu'n rhaid i Mr Turner fynd i'r ysbyty, ond balch cael dweud ei fod bellach gartref. Cofion cynnes atoch eich dau.

**Brysiwch wella**
Cofion cynnes at bawb sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar, ac yn arbennig y rhai sydd wedi gorfod bod yn yr ysbyty: Dylan Rhys Jones yn un ohonynt. Dymuniadau gorau am wellhad buan.

**Diolch**
Dymuna Laura, Gwyndaf a Gerallt ddiolch am yr holl negeseuon, cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd er cof am Raymond Williams. Mae'r rhoddion yn mynd at Dementia UK.



**Eira**
Er bod trwch o eira ganol Mawrth yn ddiflas ac anghyfleus i lawer, braf hefyd oedd gweld llethrau a chaeau'r pentref yn llawn o blant a theuluoedd yn mwynhau eu hunain yn sledio ac adeiladu dynion eira mawr a bach.

**Panad a Sgwrs**
Ar 2ail Fawrth, daeth dros ddeg ar hugain at ein gilydd i gael Te Gŵyl Ddewi blasus dros ben a ddarparwyd gan Becws Melys, Caernarfon. Yr hyn sy'n hyfryd am y criw Paned a Sgwrs ydi bod oedran y rhai sy'n mynychu'n ymestyn o 4 oed i dros 90 oed, a'r sgwrsio bob amser mor ddifyr.

Cynhaliwyd raffl er mwyn codi arian tuag at y trychineb dyngarol yn Nhwrci a Syria, a llwyddwyd i godi £109. Diolch i bawb fu'n trefnu.



**Gwerthu planced Cmon Midffild er budd Cancer Research**
Yn ystod mis Chwefror, cafodd Deian Elfryn (Coed Gwydryn gynt) y syniad o werthu planced arbennig oedd wedi cael ei gwneud allan o hen dyweli cwrw ddefnyddiwyd yn wreiddiol yn y gyfres *Cmon Midffild*. Roedd tad Deian, sef Morus Elfryn, yn rheolwr cynhyrchu ar y cyfresi ac Ann, mam Deian, roddodd y tyweli at ei gilydd, er mwyn creu planced unigryw, fu ar wely Deian am flynyddoedd lawer.

Yn dilyn marwolaeth Morus y llynedd, roedd Deian eisiau gwerthu'r blanced er mwyn codi arian at elusen Canser er cof am ei dad. Mae'n rhaid bod tipyn go lew o ffans *Cmon Midffild* eisiau cael eu dwylo ar y blanced, oherwydd talwyd £711 yn y pendraw amdani! Da iawn Deian!




**Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd – Waunfawr a Chaeathro**
Bydd Cwis yn cael ei gynnal yn Nhafarn Waunfawr ar 21ain Ebrill er mwyn codi arian tuag at ein targed lleol ni. Bydd y drysau'n agor am 7.30PM a'r Cwis yn cychwyn pan fydd pawb yn barod! Bydd tâl o £5 y pen am gymryd rhan yn y Cwis a chynhelir raffl hefyd. Dewch yn lu i gefnogi!

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# Ysgol Brynrefail

**Gweithgaredd Clocs Ffit i Flwyddyn 7**
Fel rhan o gynllun pontio Ysgol Brynrefail gyda'r ysgolion cynradd daeth Tudur Phillips yma i gynnal gweithdy clocsio a ffitrwydd gyda disgyblion Blwyddyn 7. Roedd gan Tudur 6 dosbarth i'w gweld yn ystod y dydd felly roedd yn brysur iawn! Cafodd y disgyblion brofiad arbennig yn dysgu mwy am bwysigrwydd cadw'n heini i gadw'n iach yn gorfforol ac yn feddyliol, a chyfle i gael hwyl wrth ddysgu clocsio eu hunain.

**Dydd Miwsig Cymru a Dydd Gŵyl Dewi**
Rydym eleni wedi sefydlu Fforwm Iaith yn yr ysgol er mwyn sicrhau ein bod yn hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ysgol. Mae cynrychiolydd ym mhob dosbarth cofrestru ac yn dilyn sawl cyfarfod gyda nhw daethom i benderfyniad am weithgareddau hoffai'r disgyblion eu gweld.

Rydym wedi trefnu llwyth o weithgareddau ar ôl gwrando ar eu dymuniadau. Cafwyd cwis caneuon Cymraeg ar ddydd miwsig Cymru gyda gwobrau i'r enillwyr. Ar ddydd Gŵyl Dewi roedd bwydydd Cymreig yn y ffreutur, y ddraig goch yn chwifio tu allan yr ysgol a phawb yn cael gwisgo dillad coch heb dâl! Y prif gais oedd trefnu gig arall - felly rydym yn hynod falch bod Bwncath yn gallu dod yma ar 16eg Mawrth a Machlud, band newydd o'r ysgol, yn perfformio hefyd. Mae 'na hen edrych ymlaen yma!

## Cornel Ddarllen

**Amdani! Dathlu pum mlynedd o'r gyfres boblogaidd o lyfrau i ddysgwyr**
Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Chyngor Llyfrau Cymru yn dathlu carreg filltir arbennig eleni wrth i'r gyfres boblogaidd o lyfrau i ddysgwyr, cyfres Amdani, gyrraedd ei phumed pen-blwydd. Yn ystod 2023 bydd pob teitl yn y gyfres ar gael fel llyfr llafar am y tro cyntaf.

Mae 40 o lyfrau yn y gyfres, gan amrywiol weisg, a gomisiynwyd drwy grantiau'r Cyngor Llyfrau.

Mae'r llyfrau wedi eu graddoli ar bedair lefel dysgu – Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch, a nod y gyfres yw rhoi cyfle i ddysgwyr Cymraeg fwynhau darllen am amrywiaeth o bynciau. Mae'r gyfres yn ffrwyth partneriaeth lwyddiannus rhwng y Ganolfan Genedlaethol a'r Cyngor Llyfrau.

Mae'r teitlau yng nghyfres Amdani yn cynnwys:

**Lefel Mynediad:** ***Wynne Evans – O Gaerfyrddin i Go Compare*** gan Elin Meek (Atebol)
Bywgraffiad y canwr a'r cyflwynydd Wynne Evans. Darlun personol a gonest iawn o hanes Wynne a'i deulu, ei brofiadau fel tenor enwog, a'i siwrne i ddysgu Cymraeg fel oedolyn.

**Lefel Sylfaen:** ***Yn ei Gwsg*** gan Bethan Gwanas (Atebol)




Nofel fywiog sy'n dilyn dirgelwch damwain car. Mae Dafydd, sy'n cerdded yn ei gwsg, yn deffro'n waed i gyd ... ond pwy sydd ar fai?

**Lefel Canolradd:**
***20 o Arwyr Cymru*** gan J. Richard Williams (Gwasg Carreg Gwalch)
Llyfr sydd yn dathlu 20 o arwyr arbennig Cymru, a'u cyfraniadau pwysig. Darganfyddwch straeon am Betsi Cadwaladr, Ray Gravell, Kate Roberts, ac eraill.

**Lefel Uwch:** ***Cawl a Straeon Eraill*** (Y Lolfa)
Casgliad o straeon byrion gan awduron adnabyddus, yn cynnwys Sarah Reynolds, Mihangel Morgan a Lleucu Roberts.







**Newyddion Chwaraeon**
Bu nifer o'r genethod yn chwarae yn nhwrnament cenedlaethol Ann Smart (dan 16) a Chwpan yr Arlywydd (*President's Cup*) (dan 18) draw yng Nglannau Dyfrdwy. Cafwyd perfformiadau o safon uchel ganddynt ac mae'r adran yn falch iawn o'u llwyddiant. Daeth y tîm o dan 16 yn bedwerydd a'r tîm o dan 18 yn wythfed.

## BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**
Yng nghyfarfod mis Chwefror cafwyd cwis hwyliog dan ofal Carol Houston. Roedd wedi dewis lluniau adnabyddus o adeiladau ac enwogion o Gymru ynghyd ag eitemau meicrosgopic a thrwynau anifeiliaid. Roedd yn dipyn o sialens i ddyfalu rhai o'r atebion, ond cafwyd noson bleserus llawn hiwmor. Y tîm buddugol oedd Pat, Cerid a Dwynwen. Atgoffwyd pawb am gyfarfod arbennig mis Mawrth, sef bwffe wedi ei drefnu gan Y Pantri a sgwrs gan Rhian Cadwaladr.

**Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd**
Yn ystod mis Chwefror cawsom ein hatgoffa fel pentrefwyr am yr Apêl i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol 2023 pryd y bydd Arfon yn cefnogi cyfeillion Llŷn ac Eifionydd yn eu hymdrech. Mae ein diolch i'r Cynghorydd Elen George, Sŵn yr Engan, sy'n ein cynrychioli ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen, am ei gwaith yn ymweld â chartrefi i ddosbarthu'r wybodaeth ynglŷn â sut i gyfrannu i'r Gronfa os dymunir. Gyda threfniant a ddarparwyd eisoes ar gyfer hynny ym Mrynrefail, bydd modd cyflwyno'r cyfraniadau yn lleol yn Y Caban.

**Deffib newydd gan Gyngor Cymuned Llanrug**

Yn y llun a dynwyd ar 9fed Mawrth fe welwch Mrs Meirwen Lloyd (Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanrug) a Mrs Avril Jones (Is-gadeirydd Cyngor Cymuned Llanrug) a disgyblion o flwyddyn 10 ger y deffib newydd sydd wedi ei osod yn nhu blaen yr Ysgol.

Mae'r Cyngor am drefnu hyfforddiant ar gyfer yr ysgol a chymuned Llanrug yn fuan yn Neuadd yr Ysgol.



**Diwrnod Sgiliau Chwefror 2023**

Cafwyd diwrnod prysur iawn yma ar ddydd Gwener, 10fed Chwefror a phrofiadau amrywiol ac eang i'r disgyblion.

Yr Ynys oedd thema Blwyddyn 7 a'r syniad oedd ein bod yn dychmygu eu bod yn sownd ar ynys bellennig! Roedd gwahanol weithdai ar y thema yma fel creu gwrthrych goroesi, dylunio map, blasu pryfaid (!), creu drama a chwblhau heriau/sialensau. Digon i gadw pawb yn brysur a llwyddodd pawb i ddianc ar ddiwedd y dydd.

Iechyd, Lles ac Amgylchedd Iach oedd thema'r diwrnod i Flwyddyn 8 ac roedd gweithgareddau'r diwrnod o dan ofal myfyrwyr Blwyddyn 12. Mae trefnu'r diwrnod yn rhan owaith Bac Her y Gymuned myfyrwyr Blwyddyn 12 sy'n dipyn o gyfrifoldeb. Roedd gweithdai hwyliog i ddisgyblion Blwyddyn 8 am destunau fel origami, diodydd iach, crefftau, yoga, gemau, ymarfer cylchol a llawer mwy. Roedd ymateb y disgyblion yn arbennig.

Cafodd Blwyddyn 9 gyfle i ganolbwyntio ar eu iechyd a'u lles drwy wneud gwahanol chwaraeon, ymarferion rygbi hwyliog gyda Cavanagh Coaching a choginio bwydyddd iach.

Diwrnod o wneud gweithgareddau ac arbrofion gwyddonol oedd ffocws disgyblion Blwyddyn 10 - ewch ar Facebook i weld y lluniau! Roedd gweithdy Ffiseg gan Stem Gogledd, gwneud arbrofion Cemeg a chyfle i ddyranu calon a phen pysgodyn ym Mywydeg.

Roedd Blwyddyn 11 yn yr adrannau Mathemateg, Saesneg a Chymraeg yn dysgu drwy chwarae gemau, derbyn cymorth gyda chyn-bapurau a chael phaned, cacen a sgwrs wrth eu gwaith.

Cafodd Blwyddyn 13 ddiwrnod o lonydd i ysgrifennu eu hymchwil unigol - mae pawb yn gorfod ysgrifennu 5,000 o eiriau am destun sydd o ddiddordeb iddynt ac sy'n berthnasol i'w dyfodol.





**Taith America i ddisgyblion CA4 a CA5**

Fe ddigwyddodd taith hynod o lwyddiannus wedi ei threfnu gan yr adran Ddyniaethau i America yn ystod gwyliau'r hanner tymor. Fe welawch o'r lluniau bod y disgyblion wedi cael profiadau anhygoel yn Washington, Efrog Newydd, Boston a Pensylvania. Diolch o galon i Mr Iwan Barker-Jones am drefnu taith mor anhygoel ac i weddill y staff a fu ar y daith.







**Profedigaeth**
Estynnir cydymdeimlad dwysaf i deulu a ffrindiau'r diweddar John Ellis Hughes, Caehoeden, Llanrug a fu farw yn ddiweddar. Mab annwyl y diweddar John Owen Hughes MC a Margaret Hughes, a chefnder, ewythr, gŵr bonheddig, ffrind a chymydog hoffus. Rydym yn meddwl amdanoch yn deulu a ffrindiau yn eich colled.

Yn dawel yng nghwmni Ruth a Catrin yng Nghartref Glanrhos, Brynsiencyn ar y 18fed o Chwefror, hunodd Anne Parry Jones (Nana), Perthi, Bryngwyn, Llanrug yn 81 oed. Merch y diweddar Owen a Delia Parry a chwaer ffyddlon a chefnogol Gordon, Awen, Gwyneth, Hefin a'r ddiweddar Moreen. Chwaer yng nghyfraith gyfeillgar Gill, Kate a'r diweddar Eddie, modryb hwyliog a hael, a hen fodryb i Miriam Catrin, cannwyll ei llygaid. Rydym yn danfon ein cydymdeimlad llwyraf atoch fel teulu.



## PEN-BLWYDD ARBENNIG

Pen-blwydd Hapus a phob dymuniad da i Alfred Chappell, Bryn Hermon, Llanrug fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn 100 oed ar 11eg Ebrill. Symudodd Alf o ganol Llundain i'r pentref dros 60 mlynedd yn ôl wedi iddo gael ei benodi yn Rheolwr Gwaith Caprice Compacts yng Nghaernarfon. Dymuniadau gorau iddo a chofion cynnes ato ar ei ben-blwydd arbennig oddi wrth bawb ym mro'r Eco.

**Swydd newydd**
Mae'n braf iawn cael llongyfarch Iolo Eilian, gynt o Lanrug ar dderbyn swydd newydd yn Ne Iwerddon. Iolo fydd Dirprwy Reolwr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol dros y cyfan o Weriniaeth Iwerddon. Mae'n fab i Eryl a'r diweddar Islwyn Roberts, 56 Glanffynnon ac mae ef a'i deulu wedi ymgartrefu yn Iwerddon ers dros ugain mlynedd bellach. Mae'r teulu yn hynod falch o'i lwyddiant ac rydym ninnau hefyd yn dymuno'r gorau iddo. Pob lwc i ti Iolo.

**Capel y Rhos**
Oedfaon mis Ebrill am 10.00 o'r gloch:
2 Ebrill - Parch Cledwyn Williams
9 Ebrill - Y Gweinidog Y Parch. Nerys Anne Griffiths, a bydd eglwysi'r ofalaeth yn ymuno yn y gwasanaeth. Gweinyddir y Cymun yn ystod yr oedfa a bydd cyfle i bawb gael sgwrs dros baned ar y diwedd.
16 Ebrill – i'w drefnu
23 Ebrill – Y Parch. Glenys Jones, Pwllheli
30 Ebrill – Parch R. O. Roberts

**Hafan Elan**
Yn ystod mis Mawrth, cafwyd dydd Mawrth Crempog yn y Ganolfan oedd yng ngofal Emma o Cegin Fach Emma, Llanrug. Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr ac fe ddaeth Andrea Pugh a'r hanes tu ôl i ddydd Mawrth Crempog i ni.

Yna, i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant, cawsom bowliad o lobsgows a chacen afal a chwstard i ddilyn. Mam Beverley y Warden oedd wedi paratoi'r cawl ac roedd mor flasus fel bod rhai wedi cael ail bowliad cyn mynd adref! Unwaith eto fe ddaeth Andrea a hanes Dewi Sant i ni.

Roeddem hefyd yn ffarwelio a dymuno'n dda i Gordon Carter sydd yn symud i fyw o Didfa i lawr at ei ferch Annette yn ne Lloegr. Mae Gordon wedi bod yn hynod o ffyddlon i'r gweithgareddau yn Hafan Elan, ac yn sicr mi fydd lle gwag yma ar ei ôl.

Roedd y cyfan wedi ei drefnu er mwyn codi arian i Gylch Ti a Fi, Llanrug a Chronfa Marie Curie. Gwnaed elw o £406 fydd yn cael ei rannu rhwng y ddau achos teilwng yma.

**Diolchiadau**
Dymuna deulu Norman Jones 'Jossyn', 4, Disgwylfa Terrace, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad wedi iddynt golli gŵr, tad, tad yng nghyfraith a thaid arbennig. Diolch i'r Parchedig Selwyn Griffith am arwain gwasanaeth teimladwy, Richard Llwyd Jones am y deyrnged ar ddiwrnod yr angladd, yr organydd Gareth Jones ac i Dylan Lloyd Griffith o E.W Pritchard, Llanberis am eu gofal a threfniadau arbennig. Mae Jane, Judith a Delyth yn hynod ddiolchgar i bawb am y cardiau, arian a galwadau a dderbyniwyd ar ôl colli Jossyn. Diolch o galon am y rhoddion hael iawn a dderbyniwyd tuag at 'Alaw Ward/Day Endowment Fund,' er cof am Jossyn.

**Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023**
Mae hi wedi bod yn flwyddyn lawn iawn o weithgareddau a digwyddiadau hwyliog ac amrywiol yn y pentref, ac mae'r apêl wedi codi dros £5,000 tuag at Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd a gynhelir ym Moduan fis Awst eleni. Mae'r ardal gyfan wedi rhoi cefnogaeth gref i nifer o ddigwyddiadau amrywiol.


Ni fuasai'r gweithgareddau yma wedi bod yn bosibl heb ymroddiad a gwaith arbennig a di-flino'r pwyllgor a fu'n gyfrifol am yr holl waith trefnu a chydlynu dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae ein diolch ni yn fawr iawn iddyn nhw, a diolch hefyd i bawb sydd wedi cyfrannu a chefnogi yn ariannol i sicrhau fod targed Llanrug yn cael ei gyrraedd. Mae'r targed erbyn hyn wedi ei daro, felly diolch i bawb yn y pentref.

Ar brynhawn Sul, 2il o Ebrill bydd Gareth Roberts unwaith eto yn arwain taith

gerdded a fydd yn cychwyn ger Glanmoelyn am 2.00 o'r gloch. Gall pawb o bob oed ymuno â'r daith a byddwch yn sicr yn cael pleser mawr iawn yn cerdded a hefyd yn gwrando ar hanesion difyr a ffraeth gan Gareth am gymeriadau a digwyddiadau'r ardal ar hyd y canrifoedd. Y pris i ymuno â'r daith yw £3 ond bydd plant o dan 12 oed yn cael dod ar y daith yn rhad ac am ddim.

Cofiwch bori yn y cyfryngau cymdeithasol er



mwyn cadw i fyny ag unrhyw ddatblygiadau pellach; er enghraifft mae'r dudalen 'Llanrug Ddoe a Heddiw' sydd ar Gweplyfr yn cynnwys nifer o hysbysebion am sawl math o ddigwyddiadau.

**Merched y Wawr**

Buon ym dathlu Gŵyl Ddewi ar nos Fawrth 14eg Mawrth, gan gychwyn gyda Anthem y Mudiad, gyda phwyslais ar,

"Ni chaiff na gormes hir na'r un sarhad
Fyth ddwyn oddi arnom ni ein hiaith na'n gwlad."

Roedd pob aelod i ddod ag un peth i'w gynnwys yn y 'Bwffe Rhannu a Blasu'. Bydd hanes y dathlu i'w weld yn y rhifyn nesaf.

Yn ein cyfarfod mis Chwefror Dr Dafydd Roberts oedd ein gŵr Gwadd, sef cyn Geidwad Amgueddfa Llechi'r Gogledd, oedd yn cynnwys Amgueddfa Cymru a chyn safle Oriel Eryri yn Llanberis. Mae tirwedd llechi'r Gogledd bellach wedi ennill Statws Treftadaeth Byd ac roedd Dafydd yn rhan allweddol o'r prosiect o'r cychwyn cyntaf. Roedd ei dad; a'i daid; ei hen daid a'i hen, hen daid i gyd yn chwarelwyr. Does ryfedd felly fod ganddo ddiddordeb cynhenid yn y diwydiant llechi a'i phobl.

Mae chwareli llechi wedi cael eu gweithio yng Ngogledd Cymru ers dros 1,800 o flynyddoedd. Defnyddiodd y Rhufeiniaid, oedd yn byw yn Segontiwm, lechi o chwareli i adeiladu'r gaer. Ganrifoeddd yn ddiweddarach adeiladodd y



Brenin Edwar 1af o Loegr gyfres o gestyll, gan ddefnyddio llechi ar hyd arfordir Cymru.

Gyda dyfodiad y Chwyldro Diwydiannol, daeth galw mawr am lechi. Datblygwyd Chwarel y Penryn gan Richard Pennant. Dechreuodd Asheton-Smith weithio yn Llanberis yn 1787 ac mae dywediad bachog yn Saesneg, '*Steal a sheep from the mountain and they hang you, Steal the mountain and they make you a Lord.*' Roedd y ddwy chwarel yn cyflogi dros 3,000 o ddynion. Roedd miloedd o deuluoedd yn wynebu cynni a newyn ac fe aeth nifer i fyw i Dde Cymru, tra ymfudodd eraill i Americ ac Awstralia. Bu adfywiad yn y galw am lechi ar ôl 1945 oherwydd y difrod achoswyd gan y bomiau yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Dangoswyd nifer o luniau diddorol o adeiladau enwog ar draws ewrop, America ac Awstralia gyd defnydd o lechi Gogledd Cymru i'w gweld yn yr adeiladwaith. Roedd y llechi mor boblogaidd oherwydd eu gwytnwch, anhydreiddedd i ddŵr a rhew, eu lliw deniadol ac am eu bod yn hawdd i'w hollti.

Yn 1969 caewyd Chwarel Dinorwig, ac mae'r Amgueddfa wedi'i lleoli yn hen weithdai cynnal a chadw'r chwarel. Mae diwydiant llechi yng Ngogledd Cymru o hyd. Heddiw mae gweithio yn y Penrhyn dipyn yn haws nag amser ein tadau, defnyddir peiriannau trwm bellach i symud a thrin y llechi enwog. Bu'r orig gyda Dafydd yn hynod o ddiddorol, gyda n nifer ohonom yn blant i'r diwydiant llechi caled.

Diolchwyd i Dafydd am noson hynod o ddiddorol gan Mair ac Yvonne. Diolch i Olwen, Linda a Jean am y baned. Edrychwn ymlaen am noson gyda *Tropic* ar 11egEbrill, i gael cyngor ar harddwch a sut i ofalu am y croen gyda Nia, Gwawr a Donna.

Daeth nifer o'r aelodau ynghyd ar bnawn Iau 16eg Chwefror, i'r Sefydliad i ffilmio 'Iaith ar Daith' efo Lisa Palfrey a'r ddysg wraig ac actores Jessica Hynes. Mae Jessica'n frwdfrydig i glywed mwy am hanes merched y Wawr, ac fel cangen ym mhentref mwyaf Cymreig Cymru, dyma'r lle gorau i ddod ar ei thaith a bu'n siarad a holi aelodau'r Gangen.

# Un funud fach …

## ANODD BOD YN AMSEROL

**BRADYCHU**

Go brin fod yr un rhiant wedi anfon plentyn i'r ysgol ar Ddiwrnod y Llyfr y mis diwethaf wedi ei wisgo fel awdur *Pandemic Diaries: The Inside Story of Britain's Battle Against Covid* a gyhoeddwyd cyn y Nadolig. Na, nid rhith awdur y gyfrol, Isabel Oakeshott, ond gwir awdur a gwrthrych y gyfrol, yr anghymharol Matt Hancock. Welais i mo'r gyfrol, ond dyma ddywedodd cyhoeddwyr y llyfr adeg ei gyhoeddi: 'Casgliad o ddeunydd nas gwelwyd erioed o'r blaen, yn cynnwys cofnodion swyddogol a nodiadau a wnaed ganddo ar y pryd, a'r negeseuon rhyngddo a'r holl gymeriadau allweddol yn stori Covid-19 Prydain'.

Dri mis yn ddiweddarach, mae Mr Hancock yn gweiddi 'Brad!' Ac yntau wedi ymddiried yn Ms Oakeshott i'w helpu i adrodd ei stori, mae hi bellach wedi bradychu'r ymddiriedaeth trwy roi mwy na 100,000 o negeseuon *WhatsApp* Mr Hancock i'r *Daily Telegraph.* Yr eironi mawr iddo fo bellach ydi bod miliynau'n fwy o bobl wedi darllen y negeseuon nad oedd o am eu cyhoeddi na'r rhai y dewisodd eu cynnwys yn ei lyfr. Yr unig gysur iddo, os cysur hefyd, yw nad fo yw'r cyntaf i Ms Oakeshott wneud peth tebyg iddo, fel y gall David Cameron ac Arron Banks ymhlith eraill dystio. Ac mae'n bosib iawn y carai *TalkTv* – a phapurau newydd y *Times* a'r *Sun* o ran hynny – ymuno â rhestr y bradychedig rai gan fod Ms Oakeshott yn cael ei chyflogi gan eu perchnogion *News UK* fel sylwebydd ar *TalkTv* ond wedi dewis rhoi'r sgŵp i bapur newydd sy'n eiddo i'w cystadleuwyr.

Dylasai Mr Hancock wybod yn well, ac mae'n anodd iawn cydymdeimlo ag o. Ac yn fwy fyth felly yn nhymor y Grawys ar drothwy'r Pasg. Oherwydd yn hanes y Pasg y gwelwn frad ar ei waethaf a'i fwyaf hagr ym mharodrwydd Jwdas Iscariot i fradychu Iesu Grist. Heb gyfiawnhad o fath yn y byd na'r awgrym lleiaf o gymhelliad derbyniol, dewisodd Jwdas drosglwyddo Iesu i'r bobl oedd am ei ladd. Dewisodd fradychu'r un a fu'n gyfaill ac athro ac arweinydd iddo. Derbyniodd ei arian budr am ei roi i'w elynion er na wnaethai Iesu gam ag o ac er nad oedd yn euog o'r un bai. Datgelodd Jwdas lygredd ei galon ei hun wrth fradychu nid yn unig y dyn gorau a welwyd ond yr unig un perffaith a droediodd y ddaear erioed. Ni wnaethai Iesu ddim i haeddu gelyniaeth yr awdurdodau na'r dioddefaint yr oeddent yn ei fwriadu ar ei gyfer. Byddai wedi bod yn anodd iddynt ei ddal, ond daeth y cyfan i ben yn sydyn iawn oherwydd penderfyniad Jwdas i fradychu ei Arglwydd.

Os bu gan unrhyw un erioed hawl i weiddi, 'Brad!', Iesu Grist oedd hwnnw. Ond wrth weld Jwdas yn cyrraedd Gardd Gethsemane 'a chydag ef dyrfa fawr yn dwyn cleddyfau a phastynau', ac wrth i Jwdas roi cusan iddo er mwyn i'r dyrfa ei adnabod, gellid disgwyl i Iesu fynegi ei siom a'i ddicter bod un o'i ddisgyblion wedi medru gwneud hyn iddo. Dychmygwch y geiriau y gallai Iesu fod wedi eu defnyddio i gyfarch Jwdas: 'ffŵl', 'cachgi', 'diawl'. Ond yn anterth y brad, cyfarchiad Iesu oedd 'Gyfaill, gwna'r hyn yr wyt yma i'w wneud'. Ac yn y geiriau hynny gwelwn ei drugaredd a'i dosturi. Pe byddai Jwdas wedi sylweddoli hynny roedd Iesu, wrth ddal i'w alw'n gyfaill, yn dangos i Jwdas y byddai'n maddau hyd yn oed y brad iddo, dim ond iddo gydnabod ei fai a cheisio'r maddeuant hwnnw. A dyna ran fawr o neges y Pasg o hyd.

**JOHN PRITCHARD**

# Ysgol Llanrug

**Rygbi**
Mae'r swyddog Rygbi CRC yma gyda ni am yr hanner tymor, a'r plant wrth eu boddau yn dysgu yn yr awyr agored.





**Eisteddfod Cylch**
Bu aelodau hynaf yr ysgol yn brysur yn ddiweddar yn ymarfer canu a llefaru yn barod at Eisteddfod yr Urdd. Cafodd y ddau barti lwyddiant, gyda'r parti unsain yn cael trydydd a'r parti llefaru yn cael cyntaf.





**Dydd Gŵyl Dewi Sant**
Daeth y plant i'r ysgol ar y 1af o Fawrth yn eu dillad coch a chennin pedr. Cawsom hwyl yn gwneud teisennau cri a chawl cennin.





**Ymweliad PC Dylan**
Daeth PC Dylan draw i drafod gwrth fwlio gyda blwyddyn 3 a 4 yn ogystal â dangos i'r dosbarth derbyn ei gar a beth mae'n ei wneud fel plismon.



**Cyngor Eco**
Dymuna'r Cyngor Eco ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniad hael. Casglwyd £400 tuag at ddaeargryn Syria a Thwrci.




**Iechyd Bowel a Bladder**
Sgwrs bwysig am iechyd *bowel* a *bladder* ar gyfer ein disgyblion ym Mlwyddyn 4, 5 a 6. Diolch i'r nyrsys ysgol am ymweld â ni i gyflwyno'r neges bwysig.







**Diwrnod y Llyfr**

Roedd bwrlwm mawr yma ar Ddiwrnod y Llyfr gyda'r plant wedi gwneud ymdrech i wisgo fel eu hoff lyfr.  Aeth blwyddyn 2 i'r llyfrgell, lle gawson nhw stori a chyflwyniad i'r llyfrgell.





**Pêl -droed yr Urdd**

Mor falch o'r criw yma am chwarae yn wych yng Nghystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd.



**Cerddlun**

Mae criw o blant Blwyddyn 5 wedi ysgrifennu cerddlun i'r Eco.

**Cerddlun -  Llanrug**

Mae Llanrug yn bentref arbennig
Pob adeilad a pherson sy'n bwysig
Cymuned hapus a bywiog
Pawb yn barchus a hwyliog
- ydi mae'n le bendigedig!

Dyma gerddlun wedi ei hysgrifennu gan griw bach o Blwyddyn 5 Ysgol Llanrug.

Diolch yn fawr i chi blwyddyn 5 - cerdd hyfryd!

Cofiwch fod croeso i unrhyw un anfon cerdd a llun i ni i'w cynnwys yn yr Eco fel 'cerddlun'.






**Wythnos Gyrfaoedd**

Fel rhan o'r wythnos yma rydym wedi cael ymweliadau difyr gan gynnwys y frigâd dan, plismon, gwerthwyr tai a chogydd.



# Waunfawr 1940 - Rhan 4

Dyddiadur a rhai o atgofion o'r flwyddyn 1940, gan y ddiweddar Mary Awstin Jones, Penrhos, Waunfawr. Arferai Mary a John, ei gŵr, redeg busnes siop a becws ym mhentref y Waunfawr am dros 40 o flynyddoedd. Mae'r dyddiadur yn adlewyrchu hanes a bywyd yn yr ardal ac yn cyfeirio at rai o'r cymeriadau unigryw'r adeg honno. Roedd y dyddiadur wedi bod yn gorwedd mewn drôr yn y cwpwrdd am dros 40 mlynedd, nes iddo ddod i olau dydd yn y flwyddyn 1981.

* * *

Pan ddychwelodd Griffith adre, cafodd yntau, fel y cai eraill flasenw, ac fel 'Ianci Blwydd' y'i gelwid am hir wedi hynny. Bu am rai blynyddoedd yn gweithio yn Lerpwl, neu 'Nerpwl' fel y galwai rhai'r lle. Daeth yn ôl i weithio yn Chwarel Dinorwig hyd ei ymddeoliad a dyna pryd y deuai yma atom ni yn hytrach na bod yn segur ac "yn dda i ddim" fel y dywedai ei hun yn aml.

Roedd Griffith yn gefnogwr mawr i dîm pêl-droed Caernarfon ac a'i i'w gweld yn chwarae bob cyfle a gai. Pechod mwyaf oedd i neb ddweud dim difrifol amdanynt ac os byddai'r tîm yn colli, " Hen reffari sâl!" oedd y bai. Roedd rhai o'r hogia wedi sylwi ar ei ffordd yr ynganai Torquay fel 'Torciwai'. Achosai hyn dipyn o hwyl yn enwedig ei bwyslais arbennig o'r enw a gwnant pob math o esgusion i'w gael i sôn am y tîm hwnnw.

Byddai Griffith yn achwyn fod rhieni ifanc yn difetha eu plant, "Gymri di beth a'r peth? – na wnaf - gymri di rwbath arall ynta - be sgynnoch chi gynnig?" a dim byd yn plesio. "Ych-afi! Dwi ddim yn lecio fo!" " Mi ddysgodd nhad a mam wers i mi pan oeddwn yn gwrthod byta powliad o fara llaeth oedd i swpar. Mi es i fy ngwely noson honno, y plant erill wedi byta'r bara llaeth roeddynt wedi ei gael, a phan godais i bora wedyn, be oedd yn fy nisgwyl i frecwast ond y bara llaeth roeddwn i wedi ei wrthod noson cynt, a doedd dim i'w 'neud ond ei fyta fo reit ddistaw. Mi wna peth felly les i'r hen blant trwynsur anniolchgar sy'n cael eu difetha heddiw".

* * *

Wrth chwilota drwy rhai o drugareddau yn llofft yr 'Hall' yn y dre, deuthum ar draws pecyn wedi ei lapio mewn papur brown ac enw 'Surprise Packet' 1/-, mewn llythrennau breision arno.

Wedi talu am y pecyn mi welwn ei bod yn amser i mi fynd am y Maes i ddal y bws, ac i ffwrdd a mi a mhac dan fy nghesail. Wedi cyrraedd y Maes, cael bod y bws ar fin cychwyn ac yn llawn a bu'n rhaid gwthio fy ffordd i mewn. Islwyn, un o hogia'r Waun yn gwneud lle i mi eistedd, a minnau'n falch gan fod y pecyn dan fy mraich wedi mynd yn drwm.

Wedi cyrraedd adre, euthum i'r afael â'r pac i gael gweld yn iawn beth oeddwn wedi ei gael, a dyna pryd y sylweddolais fod fy margen wedi troi allan yn un ffodus. Roedd ynddo dri o lyfrau diddorol, dau o rai Cymraeg ac un Saesneg. Gallwn yn hawdd ddweud ychydig o'u hanes bob un, ond fy mod yn dewis son am sylfaen y pac, sef tun rhostio cig.

Wyddoch chi? Fe fu gan hwn r'an yn nhraddodiad yr ardal yma. Am lawer o flynyddoedd yn hwn y byddem ni yn rhostio'r twrci Nadolig. Fe rostiwyd twrcïod, gwyddau, hams a chigoedd mawrion i deuluoedd eraill yn ogystal â dau neu dri o sefydliadau, a bu yn dda iddynt oddi wrth fy margen innau. Roedd yn rhy fawr i fynd i bopty cyffredin ond gan mai becws oedd ganddo ni, mi roedd yn siwtio i'r dim. Roedd o wneuthuriad cryf a dwy glust nobl i'w halio i mewn ac allan o'r popty. W'n i ddim faint o wasanaeth oedd rhywun arall wedi gael oddi wrtho, ond mi wn iddo roi gwasanaeth ardderchog i mi.

Daeth gwraig ddieithr i'r drws yn llawn ffwdan noswyl Nadolig. Wyddai hi ddim beth i'w wneud, roedd y twrci roedd hi wedi ei archebu wedi troi allan yn un llawer mwy na'r hyn a ddisgwyliau a doedd ganddi na thun na phopty ddigon mawr i'w ddal. Cofiaf y rhyddhad â'r boddhad gafodd wrth i ni ei'll dwy ro'i'r hen dwrci mawr hwnnw ar ei gefn yn y tun a'i rostio i'r dim erbyn eu cinio Nadolig.

Pan ddaeth y Cyfarfod Misol i'r Waun, hynny yn y dyddiau pan fyddem yn darparu cinio poeth i'r bobl ddieithr, yn hwn y rhostiwyd y dryll o gig eidion blasus gafodd pawb yn y cinio poeth olaf hwnnw, a Pitar Ifas y bwtsiar yn dod draw i'r Festri efo'i gyllell finiog i'w sgleisio yn hwylus i'w roi ar y platiau.

Pan roeddynt yn dyrnu yn fferm Tanrallt, daeth Richard Griffith draw i holi . "Oes siawns cael rhostio cig at y difia ma? Mae acw ddyrnu i fod, oes gynnoch chi rwbath sydd ddigon mawr i'w ddal o, - diawch chi weld, does yn fan'cw ddim byd ar gyfer y wledd rydan ni am roi i'r helpars, a chofiwch ei gwcio fo yn iawn, mae enw da Tanrallt yn dibynnu llawar ar y ffordd y byddwch chi wedi edrach ar ei ôl o!" A dyma'r tun eto yn chwarae ei ran!

Noswyl Nadolig ac mae ganddom nifer o wahanol bethau i'w crasu ac yn eu mysg dwrci pur fawr i'w rostio. Roedd y pethau eraill wedi eu tynnu o'r popty, ond roedd y twrci angen llawer mwy o amser. Roeddwn fy hunan yn y becws ac yn brysur yn clirio a chadw pethau er mwyn cael cau ac edrychwn ymlaen am gael dau ddiwrnod o wyliau yn dilyn yr holl brysurdeb. Yn sydyn cofiais am y twrci a rhedais i agor drws y popty. Mae gennym yr hyn a alwn yn 'peel', un a choes bren hir a phen metel fel rhaw fflat arno. Defnyddiwn hwn i dynnu pethau o'r popty. Gwthiais y 'peel' i mewn a thynnu'r tun a'r twrci gyda'r fath blwc fel y sglefriodd allan heibio i mi fel mellten.

Disgynnodd y tun ar y llawr a'r twrci'n llithro ar hyd y teils tuag at y drws a sŵn rhostio i'w ganlyn. Clyw'n rhywun y sgrechian mewn braw. Roedd geneth ifanc ar fin dod i mewn pan welodd y "peth rhyfedd 'ma!" yn gwibio heibio ei thraed ac roedd wedi dychryn am ei bywyd.

Wedi deall beth oedd wedi digwydd dechreuodd yr eneth chwerthin a chwerthin yn ddilywodraeth nes gwneud i mi feddwl ei bod ar fin cael 'sterics. Helpodd fi i hel y twrci at ei gilydd a diolch i'r drefn doedd o ddim gwaeth, ond druan o'r teils roeddwn newydd eu golchi. Rhaid oedd mynd ati eto i'w crafu a'u hail olchi ar ôl stremp y saim.

Daeth y gwasanaeth yma i ben ar ôl i ferched yr ardal gael eu stôfs drydan eu hunain yn y tŷ, ond y llynedd trwy ryw ffawd, daeth pump o






**Tyddyn Teg**

**Bwyd - Tir - Pobl**

**LLYSIAU LLEOL FFRES**

**Ymunwch â'n cynllun llysiau!**

**Dewch i'n siop!**

- **Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.**
- **Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.**

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

dyrcwn yma i'w rhostio. "Rhy fawr i'r stôf" oedd yr esboniad.

* * *

Mae Edwin y becar yn brysur yn gorphen teisen briodas Mair Wynn, a wir mae wedi cael hwyl ardderchog arni. Mae Jennie a minnau yn clirio ffenestr y siop ac yn gosod mieslin ar ei gwaelod ac Edwin yn gosod y deisen dair cylch arno yn barod at yfory. Mae'r deisen yn cael sylw pawb a chan fod Elsie, mam Mair Wynn wedi gofyn i ni gadw'r peth yn gyfrinachol, mae chwilfrydedd pobl eisiau gwybod pwy sydd yn ei chael yn dipyn o dreth. Mae'r deisen yn dal i dynnu sylw ac mae'n amlwg fod y gath o'r cwd mai Mair Wynn a'i piau. Hefyd mae Edwin yn gwneud teisen pen-blwydd i'r hen wraig Bryn Meredydd fydd yn 90 oed ddydd Gwener. Mae Gwenni ei merch wedi gofyn am un 'sponge' blaen a naw o ganhwyllau arni. Rwyf innau'n helpu addurno'r teisennau mân, ac mae yma archeb o Blas-y-Nant am 5 dwsin at nos yfory.

* * *

Bore Sadwrn prysur eto a ninnau'n gweithio fel fflamiau drwy'r bore. Dim amser i wneud bwyd, bodloni ar damaid yn ei'n llaw a gyrru'r plant i'r siop chips am foliad. Gwneud cymaint â allaf at yfory i mi gael mynd i wasanaeth y plant yn y bore. Mae'n arafu ychydig at y pnawn ac mae tair teisen blât a dwy ddysgliaid o bwdin reis a dau neu dri o gigoedd yn perthyn i'r cyhoedd wedi eu coginio ac Edwin wedi eu gosod yn barod i'w casglu. Mae Jennie wedi cau'r siop a mynd adre a minnau'n stwna o'r naill le i'r llall.

Hanner awr wedi pump a dyma gnoc ar y drws a Nanw Owen, Penrallt yn gofyn gaiff hi rostio ceiliog gan fod y mab a'r teulu yn dod i fwrw Sul ac eisiau iddynt gael, "dipyn o sgram!" Rwyf yn teimlo reit flin wrthi. Fe ŵyr yn iawn fod Edwin wedi mynd adre ers oriau a gwaith y becws wedi ei orphen. Ei hesgus yw bod ryw gamhwyl ar ei phopty, ond mi wn'i yn iawn na ddim eisiau mynd i'r drafferth mae hi a dim ots am helbul neb arall. Er hynny, rwyf yn rhoi'r ceiliog yn y tun a'i roi yn y popty mawr. Mae wedi deg o'r gloch a does neb wedi bod ynghylch y ceiliog. Hwythau mae'n siŵr yn mwynhau eu hunain ar nos Sadwrn a ninnau wedi llwyr flino ac yn ddigon gwirion i'w sbario.

Bore Sul a Ned 'Fain', gŵr Nanw Penrallt yn galw i nôl y ceiliog. "Ddim yn lecio styrbio chi neithiwr" medda fo. "Mi geith Musus setlo efo chi eto!" Rwyf yn teimlo fel dweud wrtho fel y leciwn ei wthio fo a'i fusus mewn i'r popty i grasu dipyn ar y ddau ohonynt.

Mynd efo'r plant i'r gwasanaeth. Y Gweinidog yn ystod ei anerchiad yn gofyn i'r plant pa liw sydd orau ganddynt. Maent yn gwaeddi, 'COCH' 'GLAS' ond mae un hogyn bach yn gwaeddi 'GRÊ', a'i reswm ysmala? "Am dyna ydi lliw tractor newydd Yncl Now!"

Mae hwyl garw efo'r côr heno ac mae rhai yn dweud fod côr Capel Croesywaun yn practeisio yn yr Hafod ambell gyda'r nos a bod Dic John, bwtsiar am brynu blows wen i bob un o'r merched os byddant yn curo ei'n côr ni a chael Mr Holbrook i dynnu eu lluniau.

* * *

Ychydig o enghreifftiau yw'r rhai hyn o'r math o bobl y deuthum innau i'w hadnabod a dysgu cymaint oddi wrthynt. Y rhai cas, y rhai doniol, neb yn fawreddog a neb yn rhy ddistadl nad oeddynt wedi gadael eu hargraff arnaf.

Wrth gau'r dyddiadur a'i roi nôl yn y cwpwrdd, sylwi fod Einir fy wyres fach wedi disgyn i gysgu a gwasgu'n gynnes yn fy nghesail. Bendith arni.

***Mary Awstin Jones***
***(1909 – 1985)***



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau ● AchlysuronArbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk




# Englynion Coffa i J. Elwyn Hughes

**Elwyn**
(er cof am fy nghyfaill J. Elwyn Hughes)

Aeth iaith ein hen gymdeithas uniaith ni'n
faldorddi diurddas;
iaith ddi-fai yn fratiaith fras,
iaith ddinod, ddiberthynas.
Ond rhoes ei dalent ar waith i'w hadfer
rhag troi'n lledfyw ddiffaith;
adfer mireinder ei iaith,
ailfeithrin rhin yr heniaith.
Ei iaith oedd iaith yr ieithoedd iddo ef;
hi oedd iaith ei werthoedd;
yn ei waith a'I ddarlithoedd
perffeithydd o ieithydd oedd.
Heb Elwyn, pa hwb eilwaith i'n gwerthoedd
rhag troi'n garthion diffaith?
Hebddo a'i nawdd, bydd ein hiaith
bêr eto'n waeth na bratiaith.
Llawn hiwmor oedd. Llonnai 'mryd; doniolwch,
digrifwch gwâr hefyd;
ffraethineb bro ei febyd
oedd stôr ei hiwmor o hyd.

Ond â'r hiwmor yn drymach; ond â'r iaith
yn drist, yn sobreiddiach,
mae ei geirfa'n fil gwannach
a'i hen gystrawen yn strach.
Galarai uwch bwnglerwaith; llawenhai'n
llawn hwyl uwch gorchestwaith,
ail-greu'n gyfan, rhag anrhaith,
lendid cynhenid ein hiaith.
Yn eigion ein calonnau, hiraethu
y mae'r iaith a minnau
yn dristach a dwysach dau,
dwysach o weld ei eisiau.
Mae'r ing am amryw a aeth â'u hiwmor
ymaith yn ing helaeth,
ond am fy ffrind mwyaf ffraeth
mae dyfnach, chwerwach hiraeth.

*Alan Llwyd*

**Er cof am Elwyn**
Rhowch i'r un fu'n parchu'r iaith ei haeddiant
am ymroddiad hirfaith
yn rhoi dysg ar hyd y daith
yn llifeiriant llafurwaith.
Rhowch y mawl I'w Fraichmelyn am wreiddiau
yr amryddawn Elwyn;
am roddi gwerth mewn perthyn,
a'r cof o'r morthwyl a'r cŷn.

Rhoddwch I'r gwâr ei haeddiant; ein hanes
roes inni yn feddiant;
rhag y gwyll rhoi diwylliant,
rhoi stori'n plwyfi I'n plant.

*Ieuan Wyn*

# Crwydro gerddi

## Gerddi Cudd - Gerddi Cadnant


1


2


3


4


5


6


7


8


9

Os oes ganddoch chi brynhawn neu fore i'w sbario a ffansi crwydro o gwmpas gardd hardd, heb fod yn rhy bell o fro'r Eco, ewch draw i Blas Cadnant. Dydy'r gerddi ddim mor guddiedig fel na allwch chi eu darganfod yn ddi-drafferth. Anelwch am Sir Fôn, croeswch yr hen bont, (Pont Borth) ewch drwy dref Porthaethwy a throwch i'r chwith pan welwch chi'r arwydd brown. Chewch chi ddim mo'ch siomi.

Aeth efe a finnau draw yno, ar ddydd Sul braf yng nghanol mis Chwefror. Mae'r gerddi wedi cau i'r cyhoedd yn ystod mis Tachwedd, Rhagfyr ac Ionawr, a dim ond ar ddydd Mercher a dydd Sul o 12pm tan 4pm maent ar agor yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth. Os ydach chi am ymweld a'r gerddi rhywbryd ewch i www.plascadnantgardens.co.uk neu gallwch ffonio 01248 717174 neu e-bostio plascadnantgardens@gmail.com

Wedi cyrraedd, a thalu am fynediad, mae un olygfa sy'n fy nghyfareddu fi bob amser, dim ots pa adeg o'r flwyddyn ydy hi, sef y rhodfa o goed ywen (*Fastigate Yew 'Robusta'*), wedi eu tocio i siapiau geometrig, sy'n arwain i lawr at bwll o ddŵr a gweddill y gerddi. **(1)**

Dyma'r pwll ei hun, sy'n llawn pryfetach, gwas y neidr a lili'r dŵr ym misoedd yr haf. Er mi fyddai'n poeni o weld y grisiau metal sydd wedi eu gosod i fynd i mewn i'r pwll yn y pen draw! Dydw i ddim yn bwriadu mynd rhy agos i'r ymyl… **(2)**

Roeddwn i wedi dotio efo'r eirlysiau ym Mhlas yn Rhiw, (fel y gwelsoch chi yn rhifyn mis Mawrth o'r Eco) ond roeddwn wedi dotio efo'r eirlysiau yng ngerddi Cadnant hefyd, er nad oeddwn wedi disgwyl gweld cymaint ohonynt! Roedden nhw i'w gweld yn tyfu'n naturiol ym mhob twll a chornel o'r gerddi. **(3)**

Yn ogystal ag eirlysiau, roedd amrywiol flodau a coed a llwyni i'w gweld. Roedd y cennin pedr, *hellebore*, crocws a bleidd-dag y gaeaf (*Eranthis hiemalis* neu *winter aconites*) i gyd yn tyfu'n naturiol yng nghanol y coed a'r llwyni a'r lliwiau amrywiol yn cyferbynnu a chyd-fynd â gwynder y lili wen fach. **(4 - 6)**

Mae'r planhigion yn yr ardd yn edrych yn hynod naturiol, ond mae lle hefyd i'r *topiary* (torri llwyni i siapiau arbennig) sy'n creu effaith mwy ffurfiol, gydag enghreifftiau i'w gweld drwy'r ardd. Mae'n rhoi strwythur a ffurf

Llun: Aled Hughes




# Jin Buan

Dros y misoedd diwethaf mae criw o Bwyllgor Apêl Pwllheli wedi cychwyn menter go wahanol er mwyn codi arian at Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd – sef cynhyrchu jin unigyw. Jin Buan yw'r enw, gan fod yr Eisteddfod ym Moduan.

Fe gawson ni'r ysbrydoliaeth o jin Trafferth Mewn Tafarn a gynhyrchwyd ar gyfer Eisteddfod Tregaron gan Bwyllgor Apêl Trefeurig, a'n rhoi ar ben ffordd hefyd gan ein cyflenwr, sef Rob Laming o Ddistyllfa Llanfairpwll Gin, am bethau fel y costau, y blas a'r gofynion cyfreithiol.

Fe ddewison ni flas jin clasurol, efo digon o flas sitrws a merywen, i gael jin hawdd ei yfed, addas i'w baru efo pob math o donics a ffrwythau. Bu'r broses yn llawn o gydweithio cymunedol. Roedd yn rhaid gwerthu raffl a chasglu rhagarchebion i gael arian yn y coffrau, a chafwyd benthyciadau hael gan rai o aelodau'r Pwyllgor. Cafwyd lle i storio gan Glwb Golff Pwllheli.

Mae'r botel yn unigryw, ac yn un i'w chadw i gofio'r Eisteddfod. Mae darlun hyfryd gan yr artist Elin Huws ar y label, a hwnnw wedi ei ddylunio'n fendigedig gan y dylunydd Eleri Owen. Am



10



11



12



13



14



15



16




17



18



19



20

i'r ardd - nid jest y coed ywen sy'n cael eu tocio, mae'r *camellia* hefyd wedi cael ei thocio i siâp pyramid. Dyna chi un peth dydw i ddim yn ddigon dewr i'w drio, gan fy mod wedi disgwyl gyhyd am flodau i ymddangos ar y camellia pinc tywyll hardd, yn fy ngardd i, dydw i ddim yn mynd i fentro ei thocio, rhag ofn iddi bwdu a pheidio blodeuo eto. **(7 - 9)**

Cofiwch ffordd arall o roi strwythur i'ch borderi dros fisoedd oer yr hydref a'r gaeaf, yw drwy **beidio** bod yn rhy barod i docio llwyni a choesau planhigion, gan adael i bennau hadau blodau'r haf, i roi strwythur i'r borderi. Bydd bonws hyfryd os bydd rhew neu farrug yn harddu'r coesau noeth yn ystod y gaeaf a bydd yr hadau'n ffynhonnell o fwyd i'r adar hefyd. **(10 - 11)**

Wrth fynd o gwmpas fy ngardd fach fy hun, dwi'n sylwi ar yr holl arwyddion o'r tyfiant sydd i ddod. Roedd yr addewid hynny i'w weld yng ngerddi Cadnant hefyd, fel yr *hyacinths* piws tywyll hyfryd yma'n ymwthio allan o'r pridd. Cefais fy ysbrydoli i fynd ati i blannu'r rhai sydd wedi blodeuo yn y tŷ acw dros gyfnod y Nadolig, yn yr ardd, croesi bysedd, ac mi ddylen nhw flodeuo'r flwyddyn nesaf. (**12**)

Mae'r gerddi'n fan cysgodol ac mae'r hinsawdd *Micro climate* yn sicrhau bod pethau'n ffynnu yma, na fyddai'n hapus nac yn llwyddo i oroesi ar lethrau Moel Rhiwen! Mae pethau fel y coed rhedynnau (*tree ferns*) i'w gweld wedi goroesi'r gaeaf yn rhwydd. **(13 - 14)**

Gan fy mod wedi straffaglu i gael yr un camellia sydd gen i yn yr ardd acw i flodeuo roedd hi'n hyfryd gweld y rhain, sylwch ar y gwenyn yn mwynhau'r cynhesrwydd a'r bwyd cynnar! **(15 - 16)**

Da gweld bod arwyddion dwyieithog ym mhobman! (**17**)

Yn debyg i Blas yn Rhiw roedd sŵn yr adar bach yn canu drwy'r ardd yn ogystal â sŵn dŵr o'r nentydd ac Afon Cadnant. Cafodd y Pwll Adlewyrchu ei greu wrth adnewyddu'r Dyffryn Isaf pan ddarganfuwyd bod ffynnon naturiol yn treiglo i'r pwll. Man hyfryd a lle i'r enaid gael llonydd. **(18 - 19)**

Pnawn difyr o fwynhau gardd neu yn yr achos yma gerddi hardd. Cyfle hefyd i brynu ychydig o eirlysiau (*in the green)* i mi gael eu plannu'n syth ar ôl cyrraedd adref, gan groesi bysedd bydd clwmp ohonynt ym mhen pella'r border newydd, gwanwyn nesaf. **(20)**

Gorffen trwy fwynhau paned a bechdan, gan barhau i fod yng ngolwg yr harddwch buon ni'n ei fwynhau wrth gerdded y gerddi hyn. Edrach ymlaen rwan, at gael dod yn ôl ddiwedd Ebrill neu ddechrau mis Mai, i weld y bwtsias y gog yn eu gogoniant. **Rhosyn Mynydd**

wddw pob potel mae llyfryn bach gyda cherdd gan Guto Dafydd, a argraffwyd yn rhad gan Wasg Carreg Gwalch. Mae golwg y botel yn sail da i hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, ac rydyn ni hefyd yn defnyddio lluniau o enwogion a phrynwyr y jin gyda "brawddegau" bachog i annog mwy o bobl i brynu.

Mae gennym daenlenni manwl yn cofnodi'r holl archebion, yr incwm a'r gwariant. Her ymarferol arall yw cludo a danfon – gellir casglu poteli o Bwllheli neu o Siop Mirsi yng Nghaernarfon, ac mae'r criw wedi bod yn gyrru â photeli i gerrig drysau cwsmeriaid, ymhell ac agos.

Cwta wyth wythnos oedd yna rhwng dechrau arni o ddifri a chael y botel gyntaf o'r Ddistyllfa. Roedd hynny ar amser delfrydol cyn y Nadolig, ac fe werthodd fel slecs. Mae ymhell dros hanner y jin wedi ei werthu, felly rydan ni wedi clirio'r costau a phob gwerthiant rŵan yn elw clir i'r Eisteddfod.

Ond brysiwch! Dyma rybudd ichi – does dim llawer ar **ôl**, a go brin y byddwch chi'n dymuno bod heb brynu potel o'r cynnyrch unigryw yma. Rydyn ni'n griw cyfeillgar sydd wedi mwynhau cydweithio i greu cynnyrch gwerth chweil at achos da. Iechyd da!

Pris potel 500ml yw £32. I brynu ar-lein, ewch i https://linktr.ee/jinbuan – neu gallwch ffonio 07786244170 / anfon eich manylion i jinbuan2023@gmail.com.

## Ryseitiau arbennig Jin Buan

**Jini Fuan**
Y G&T clasurol. Rhowch rew a sleisen o ffrwyth mewn gwydr hi-ball – grawnffrwyth, lemon, oren neu giwcymbyr yw ffefrynnau'r Is-bwyllgor. Tolltwch ryw 70ml o Jin Buan i mewn, a rhyw 200ml o donic crand.

**Martini Fuan**
Gwnewch ryw 50ml o goffi cryf fel espresso, a'i ysgwyd mewn ysgwydwr coctels (neu jwg) efo 70ml o Jin Buan, 50ml o wirod coffi (Tia Maria neu Kahlua) a rhew. Tolltwch bopeth heblaw'r rhew i wydr martini. Rhowch ffeuen goffi ar y top os oes gennych un wrth law.

**Mari Fuan**
Tolltwch 70ml o Jin Buan dros rew. Llenwch y gwydr i'r top efo sudd tomato, gan oedi weithiau i roi ambell joch o dabasco poeth a saws Caerwrangon (a sudd lemon os oes gennych beth). Rhowch ysgeintiad o halen a phupur ar y top, a'i gymysgu â ffon o seleri.

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## COFNODION CYFARFOD MIS CHWEFROR 2023

**Cofnodion 10fed Ionawr 2023**
Cafwyd y Cofnodion yn gywir:
**Materion o'r Cofnodion**
**Cysgodfa'n Bws Brynrefail**
Y clerc i gysylltu â chontractwr er mwyn trefnu i gyfarfod Elen George yno i weld sut allwn osod cysgod yn y blaen.
**Gohebiaeth a Materion Eraill**
***Clwb Ieuenctid Bethel***
Cafwyd adroddiad byr o'r clwb Ieuenctid ym Methel gan Sasha. Mae ganddynt 60 o aelodau gyda rhyw 20 - 30 yn mynychu yn wythnosol. Mae yno awyrgylch braf yno gyda digon o weithgareddau gwahanol yn wythnosol. Mae pawb yn cyd dynnu, ac yn cymryd gofal o'r adeilad ac adnoddau. Maent wedi trefnu ambell drip megis Bowlio Deg gyn ystod y tymor, a hynny wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r clwb ei hun yn dilyn ychydig broblemau yn y dechrau yn llwyddiant. Mae'r Cyngor Cymuned wedi cytuno i gyllido eto'r flwyddyn nesaf.
***Clwb Ieuenctid Deiniolen***
Anfonwyd adroddiad byr gan yr Arweinydd Richard Jones. Mae 261 o bresenoldeb wedi bod yn y nosweithiau o ddiwedd Medi hyd yn hyn. Mae hynny ar gyfartaledd o ryw 20 yr wythnos. Mae'r clwb wedi ei sefydlu yn gadarn eleni, gyda rhaglen amrywiol i gyd fynd a gwahanol ddathliadau'r calendr blynyddol. Fel ym Methel, maent wedi trefnu trio ar y cyd ac yn gyd weithio yn aml ar weithgareddau. Mae'r ieuenctid yn hynod o ddiolchgar i'r Cyngor Cymuned am gyllido'r noson yma ar eu cyfer, gan fod Deiniolen yn un o'r pentrefi hynny, lle mae gwasanaeth bws gyda'r nos yn amhosib i'w cludo i ardaloedd lle mae gweithgareddau eraill, a chan nad oes dim o fewn y pentref iddynt wneud na unman iddynt gyfarfod. Mae'r Cyngor Cymuned wedi ymrwymo i gyllido eto eleni.
***Pwyllgor Pentre' Deiniolen*** - Mae'r pwyllgor wedi trefnu noson Gŵyl a Chân I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar y 1af Fawrth yn Neuadd yr Ysgol. Maent hefyd wedi sefydlu cystadleuaeth flynyddol er Cof am y diweddar 'Gwil Tate'. Cystadleuaeth creu Darn o Gelf I ddathlu Gŵyl Ddewi I blant CA2 Ysgol Gwaun Gynfi. Mae'r pwyllgor hefyd wedi derbyn grant er mwyn agor caffi EB i bobl ymgynnull dros sgwrs a phaned. Dymunwn bob llwyddiant i'r pwyllgor ar eu gwaith yn ceisio adfywio'r pentref er lles y trigolion.
***Apêl Eisteddfod Llyn ac Eifionydd***
Fel y gwyddom, mae gwahanol bentrefi yn cynnal gweithgareddau er mwyn codi'r swm ein hardal yn Llanddeiniolen. Mae raffl fawr i'r plwyf yn cael ei drefnu, a gobeithir y bydd pawb yn cael y cyfle i brynu tocyn raffl er mwyn cyfrannu at ein hapêl. Mae modd hefyd cyfrannu yn uniongyrchol drwy gysylltu â Siân Harris, y trysorydd.
**Cynllunio**
Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:
*C23/0024/18/RA - Y Gaer Wen Llanrug* Rhyddhau amodau i gais C22/0404/18/DT
*C23 / 0014/18/DT - Ty'n Llidiart, Seion*. Estyniad ac addasiad i'r eiddo
*C23/0065/18/YA - Fferm Cefn Llan* Codi Sied Amaethyddol.
**Llwybrau**
Mae'r Cyngor wedi derbyn sawl amcan bris am wahanol lwybrau i wella yn yr ardal. Y gobaith ydi i allu cyflawni hyn dros y flwyddyn nesaf nawr, yn enwedig yn ystod y gwanwyn a'r haf. Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn ynglŷn â pha lwybrau fydd yn cael eu gwella eleni.
Hefyd angen cysylltu i weld os ydi'r pileri llechi ar lwybr cefn Capel Cysegr yn ddiogel.
**Sedd wag**
Mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i ethol aelod Newydd I sedd wag ar y Cyngor Cymuned. Os oes rhywun a diddordeb, cysylltwch â'r clerc am fwy o fanylion.
**O Gwmpas y Bwrdd**
**Allt Sam** - Tarmac sydd wedi ei roi i lenwi'r tyllau wedi dod i ffwrdd i gyd. Angen adfer y Gwaith ar frys.
**Cae'r Foel, Dinorwig** - Neb byth wedi clirio'r llanast sydd yno. Cysylltu yn ôl a gorfodaeth.

# Cynllun i'r Dyfodol



Dyma Hefin Jones, Aelod o Gynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd Dyffryn Peris yn trafod y profiad o fod yn rhan o'r Cynulliad, a'r camau nesaf. Hefin yw'r 3ydd o'r dde yn y rhes ganol.

**Helo Hefin! Pam y penderfynoch chi ymuno â'r Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd yn Nyffryn Peris?**
Y naturiaethwr Duncan Brown oedd un o'r siaradwyr gwadd yn ein Cynulliad cyntaf 'nôl ym Mis Mai'r llynedd. Y sylw mwyaf a wnaeth oedd mai ein plant a phlant ein plant fydd yn talu am ein diffyg gweithredu yn wyneb argyfwng newid hinsawdd. Heb amheuaeth dyma ffaith y dylwn ei chofio'n ddyddiol wrth geisio gwneud mwy a mwy o'r cannoedd o bethau bach pwysig sy'n bosib i ni gyd eu harfer er mwyn ennill y frwydr yn erbyn cynhesu byd eang.

**Beth ddigwyddodd yn y Cynulliadau felly?**
Tros gyfnod o tua chwech mis trefnwyd pedwar cynulliad i hanner cant o drigolion Dyffryn Peris. Buom yn trafod a phenderfynu ar gynllun i'w gynnig i'n cymuned i'n galluogi i daro'n ôl yn erbyn yr argyfwng hinsawdd. Gyda chymorth ac arweiniad gwerthfawr a theg hwyluswyr GwyrddNi, cawsom gyfle mewn wyth sesiwn dwys ond diddorol i drafod a ffurfio'r cynllun. Effeithiol iawn oedd arweiniad ein hwyluswyr, gan yn gyntaf roi cyfle i ni drafod a gwerthfawrogi cyfoeth ieithyddol, hanesyddol, diwylliannol a naturiol ein hardal. Y cam nesaf oedd i ni gyd drafod sut le yr hoffem i Ddyffryn Peris fod mewn 40 o flynyddoedd. Yn olaf cawsom y cyfle i drafod sut orau i wireddu hyn.

**Oedd unrhyw beth yn syndod i chi yn ystod y siwrna?**
Synnais faint o syniadau ddaeth i'r golwg a faint o wahanol ddiddordebau a gwybodaeth sydd ar gael yn y dyffryn. Mae ail-gylchu yn arferiad yr ydym i gyd yn ei wneud, ond tybed oes posib gwneud mwy? Dim ond yn ddiweddar ma' tŷ ni wedi dechrau ail-gylchu plastigion meddal - wel am syndod faint o hwn sydd yn cael ei hel acw!!

Er mwyn lleihau dibyniaeth ar betrol beth am bwyso pellach am lwybrau beics, beth am well cynllun bwsiau lleol? Rhannu ceir? Cawsom nifer o syniadau am wella tai, a bu trafod brwd am gamau i helpu byd natur a bywyd gwyllt i ffynnu.

Gwerthfawrogwyd yn fawr gyfraniad disgyblion ysgolion y cylch hefyd a braf oedd clywed am lwyddiant y Cynulliad Ysgolion gyda syniadau amrywiol a ffres. Bu'r aelodau yma'n trafod tractors a bysus trydan, dosbarthiadau awyr agored ynghyd a llawer mwy o syniadau gwreiddiol a gwahanol.

**Beth oedd fwyaf cyffrous i chi?**
Cawsom sgwrs ddifyr gan Maldwyn Peris am Ynni Padarn Peris, menter gymunedol sydd wedi golygu llawer o waith caled i griw brwd o'r ardal. Mae llwyddiant YPP yn dangos be sy'n bosibl i'w wneud gan y gymuned er lles y gymuned a'r amgylchedd. Beth am fwy o brosiectau gwyrdd i greu ynni, neu system i wella tai pobl leol ac arbed ynni? Ma'n gyffrous sylweddoli faint sy'n bosib i ni ei wneud i wella pethau.

**Be gawsoch chi allan o'r profiad?**
Ma'n hawdd digaloni o weld fel mae petha' di mynd, ond trwy gyfarfod a thrafod ma' rywun yn sylweddoli cryfder yr awydd i drin yr amgylchedd a byd natur yn gallach. Mae GwyrddNi yn cynnal yr un math o Gynulliadau yn Nyffryn Ogwen, Pen Llŷn, Bro Ffestiniog a Dyffryn Nantlle, ac 'rydym wedi clywed hanes grwpiau tebyg mewn ardaloedd eraill ledled Ynysoedd Prydain hefyd. Y gobaith yw y bydd mwy a mwy yn gweithredu er mwyn gwella pethau.

**Beth sy'n digwydd nesaf felly?**
Bydd rhaid penderfynu ar ba brosiectau i'w datblygu, a bydd rhaid annog ein cymunedau i berchnogi'r symudiad holl bwysig yma i warchod ein dyfodol.

**Diolch Hefin! Oes wir mae cyfle i unrhyw un o'r gymuned rwan i ymuno â'r daith a'n cefnogi i wireddu'r syniadau hyn.**

**I ddarllen Cynllun Gweithredu Hinsawdd Cymunedol Dyffryn Peris ewch i** https://bit.ly/CynllunGweithreduDyffrynPeris â chysylltwch gyda Lowri, hwylusydd Dyffryn Peris ar lowri@deg.cymru. Rydym yn croesawu pob cwmni a chefnogaeth rwan wrth i ni geisio gwireddu syniadau gwych Cynulliad Cymunedol Dyffryn Peris.

# Cyngor Cymuned Llanrug

## COFNODION CYFARFOD MIS IONAWR 2023

**1. I DDERBYN CROESO GAN Y CADEIRYDD**
Estynnwyd croeso gan y Cadeirydd i bawb i'r cyfarfod.

**2. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 21 RHAGFYR 2022**
Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.

**3. I DDERBYN UNRHYW SYLWADAU YN CODI O'R COFNODION**

4. **I DDERBYN ADRODDIA**D gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, aelod dros Gwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.

**5. I DDERBYN ADRODDIAD** gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Lanrug ar Gyngor Gwynedd.

**6. I DDERBYN A MABWYSIADU POLISI AR GYFER MEINCIAU COFFAOL ODDI FEWN I ARDAL Y CYNGOR.**(Copi drafft wedi cylchredeg)
Penderfynwyd: Peidio mabwysiadu'r polisi ar hyn o bryd gan ychwanegu trefniadau apelio.

**7. I GYMERADWYO CYLLIDEB AR GYFER 2023/2024**
Adroddwyd fod y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau wedi cyfarfod ac wedi creu cyllideb ar gyfer
2023/2024. Ymhelaethwyd ar gynnwys y gyllideb a gofynir i'r cyngor llawn ei gymeradwyo.
Penderfynwyd: Diolch am yr adroddiad a chymeradwywyd y gyllideb.

**8. I BENDERFYNU AR Y PRAESEPT AR GYFER 2023/2024**
Penderfynwyd: Fod praesept ar gyfer 2023/2024 yn £80,000.

**9. I GYMERADWYO LWFANSAU AR GYFER 2023/2024 AC I GYMERADWYO AMSEROEDD I'W**
**TALU.**
Adroddwyd fod Panel Annibynnol ar lwfansau i aelodau cyngor cymuned wedi addasu'r lwfansau sydd yn daladwy i aelodau fel a ganlyn. Mae lwfansau wedi eu rhannu yn fandadol a dewisol.
Taliadau Mandadol (Mae'n rhaid i'r cyngor ddarparu'r taliadau yma)
Lwfans o fod yn aelod o'r cyngor - £156
Lwfans ar gyfer costau argraffu, inc, gwres a mewnrwyd- £52
Swm yn y gyllideb fel ein bod yn gallu talu lwfans gwarchod- £500
Taliadau Dewisol.
Lwfans Cadeirydd- £104
Lwfans Is- gadeirydd- £52
Lwfans Uwch rôl - £52
Lwfans Presenoldeb- dim
Colled Ariannol- dim
Teithio a Chynhaliaeth- yn unol â graddfeydd Llywodraeth Leol
Penderfynwyd: Cytuno i dalu'r lwfansau uchod a'r rheini i'w talu ddechrau Mawrth 2024.

**10. I DDERBYN ADRODDIAD O GYFARFOD PWYLLGOR CYLLID AC ADNODDAU a gynhaliwyd ar y 12fed Ionawr 2023.**
(Cofnodion drafft wedi atodi)
Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**11. I GYMERADWYO CYNNYDD O 5% YN FFIOEDD Y FYNWENT AR GYFER 2023 / 2024**
Penderfynwyd: Er mwyn cysondeb, cytunwyd i gynyddu'r ffioedd o 5% ar gyfer 2023 / 2024

**12. I YSTYRIED LLINELLAU MELYN O GWMPAS MAES PARCIO GER Y SPAR, LLANRUG**
Adroddwyd fod y llinellau melyn o amgylch y maes parcio wedi erydu a bod angen eu hail- peintio. Adroddwyd ymhellach fod angen llinellau melyn o gwmpas Y Spar oherwydd bod ceir yn parcio ac yn amharu ar weledd.

**13. I DDERBYN DIWEDDARIAD AR Y GYSTADLEUAETH NADOLIG 2022.**

**14. CEISIADAU CYNLLUNIO**
a) Rhif y cais: C22/1174/23/DT
Estyniad unllawr a deulawr at gefn yr eiddo gydag estyniad unllawr at ochr yr eiddo ynghyd â newidiadau mewnol. Tŷ Capel, Ffordd Crawia, Llanrug.
Penderfyniad: Dim Gwrthwynebiad.
b) Rhif y cais: C22/1095/23/DT
Estyniad llawr cyntaf dros ran llawr daear y tŷ presennol, to crib newydd i gymryd lle arwynebedd to fflat sy'n weddill gyda tho crib newydd i ffurfio canopi mynedfa.
Fron Allt Goch, Cwm y Glo.
Penderfyniad: Dim Gwrthwynebiad.

**15. I YSTYRIED CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL GAN Y MUDIADAU CANLYNOL**
a) Y Sefydliad Coffa
b) Eco'r Wyddfa
c) Seindorf Arian Llanrug
d) Elusen Ambiwlans Awyr Cymru
Penderfynwyd: Cyfrannu fel a ganlyn

**Datgan Buddiant**
Bydd buddiant personol hefyd yn cael ei ystyried fel buddiant sydd yn rhagfarnllyd, os yw yn un sydd, y byddai aelod o'r cyhoedd yn ymwybodol o'r ffeithiau perthnasol, yn rhesymol i'w ystyried mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o ragfarnu barn yr aelod ynghylch budd y cyhoedd.
Ar sail yr uchod, fe ddatgelodd y Cynghorwyr Beca Brown a Hefin Jones fuddiant personol a rhagfarnllyd i gais Eco'r Wyddfa ac ni wnaethant gymryd rhan yn y drafodaeth na'r penderfyniad.
a) Y Sefydliad Coffa- £2,600
b) Eco'r Wyddfa- £850
c) Seindorf Arian Llanrug- £850
d) Elusen Ambiwlans Awyr Cymru- £200

**16. I DDIWEDDARU'R CYNGOR AR Y BROSES DENDR TORRI GWAIR YN Y FYNWENT,**
**MEYSYDD CHWARAE A LLWYBRAU CYHOEDDUS**
Adroddwyd fod y broses dendr wedi cwblhau a bod y tendrau wedi eu penderfynu fel a ganlyn-
Torri Gwair y Fynwent-- Mr.W. Lewis.
Torri Gwair Meysydd Chwarae –
Mr. P. McGuinness.
Torri Llwybrau Cyhoeddus – Mr. H. Owen
Bydd y tendrau yn rhedeg am gyfnod o 3 blynedd.

## CHWILAIR MIS EBRILL - ADAR Y GLANNAU

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | W | Y | L | A | N | G | E | F | N | Dd | U | F | W | Y | A | F |
| A | E | C | W | O | A | T | S | B | F | O | L | O | Ng | T | P | C |
| H | N | I | Th | I | E | R | Y | N | E | D | A | Y | W | H | I | D |
| Y | B | E | D | F | Ch | O | M | S | T | Y | F | E | Y | D | B | S |
| S | P | I | O | D | E | N | Y | M | O | R | H | S | T | B | Y | Th |
| I | T | F | A | C | S | L | G | A | Ll | N | U | D | A | S | Dd | E |
| G | R | C | W | T | I | A | D | T | O | R | G | O | Ch | E | C | A |
| B | W | Th | I | Ll | U | R | S | E | W | A | A | I | L | U | O | R |
| LL | D | Y | F | E | A | G | O | A | H | C | N | Y | S | W | E | T |
| E | U | M | L | D | M | W | N | I | G | W | D | R | F | W | S | Y |
| S | N | A | P | O | N | Y | A | N | W | O | R | L | E | C | G | D |
| O | P | L | U | E | G | L | Th | H | C | D | Ch | O | B | N | O | A |
| N | E | S | Y | C | R | O | E | T | A | I | P | T | U | E | Ch | I |
| G | F | I | U | L | P | G | C | M | U | L | F | R | A | N | B | T |
| A | D | E | R | Y | N | D | R | Y | C | I | N | M | A | N | A | W |
| W | M | O | R | W | E | N | N | O | L | B | S | T | Y | R | I | C |
| Ph | R | Y | G | I | A | W | N | E | P | Y | N | A | L | Y | W | G |

**ADERYN DRYCIN MANAW**
**BILIDOWCAR**
**CWTIAD TORCHHOG**
**CWTIAD Y TRAETH**
**GWYLAN GEFNDDU FWYAF**
**GWYLAN Y PENWAIG**
**GWYLOG**
**HUGAN**
**HWYADEN YR EITHIN**
**LLURS**
**MORWENNOL**
**MULFRAN**
**PAL**
**PIBYDD COESGOCH**
**PIODEN Y MOR**

*Yr un aderyn yw'r mulfran a'r bilidowcar. Pa air fyddech chi'n ei ddefnyddio? Gallwch eu gweld ar ambell i lyn yn ogystal ac ar hyd y glannau.

**Aderyn-drycin Manaw** - Manx Shearwater
***Bilidowcar** - Cormorant
**Cwtiad Torgoch** - Ringed Plover
**Cwtiad y Traeth** - Turnstone
**Gwylan Gefnddu Fwyaf** - Great Black Backed Gull
**Gwylan y Penwaig** - Hering Gull
**Gwylog** - Guillemot **Hugan** - Gannet
**Morwennol** - Tern **Hwyaden yr Eithin** - Shelduck
**Llurs** - Razorbill **Pâl** - Puffin
***Mulfran** - Cormorant **Pibydd Coesgoch** - Redshank
**Pioden y Môr** - Oystercatcher

## ATEBION CHWILAIR MIS MAWRTH

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | A | C | W | T | I | A | R | G | B | E | R | G | T | P |
| Ch | W | R | B | R | O | N | W | E | N | Y | D | W | R | I |
| O | Ff | Y | I | C | D | Y | G | Dd | F | H | L | Y | S | B |
| G | A | N | A | I | A | R | Dd | W | R | W | Ng | Dd | I | Y |
| N | L | G | S | Ch | B | A | T | H | C | Y | M | C | G | Dd |
| E | A | L | F | R | F | L | Ll | I | R | A | O | A | L | Y |
| B | R | A | O | C | E | A | Y | P | E | D | S | N | E | D |
| N | Ch | S | Ll | T | F | R | W | Ph | Y | E | C | A | N | O |
| E | Y | Y | N | D | L | Ch | N | R | R | N | R | D | L | R |
| D | G | D | S | Rh | A | Dd | E | T | G | G | T | A | W | L |
| A | O | O | Y | C | N | O | D | M | L | O | Ll | E | Y | A |
| Y | G | R | W | A | D | F | A | C | A | P | P | C | D | N |
| W | L | L | O | T | B | G | Y | E | S | O | I | O | E | T |
| H | E | A | U | Ff | E | D | W | T | Th | G | S | D | G | N |
| S | Dd | N | | C | O | R | H | W | Y | A | D | E | N | A |

- **ALARCH DDOF**
- **ALARCH Y GOGLEDD**
- **BRONWEN Y DWR**
- **CORHWYADEN**
- **CREYR GLAS**
- **CWTIAR**
- **GLAS Y DORLAN**
- **GWYACH FACH**
- **GWYACH FAWR GOPOG**
- **GWYDD CANADA**
- **HWYADEN BENGOCH**
- **HWYADEN GOPOG**
- **HWYADEN WYLLT**
- **IAR DDWR**
- **PIBYDD Y DORLAN**
- **SIGLEN LWYD**

# Cyngor Cymuned Llanberis

## COFNODION CYFARFOD MIS CHWEFROR 2023

**1 CROESO**
Cofnodion cyfarfod misol rheolaidd y Cyngor am 7yh nos Fercher yr 8fed o Chwefror, 2023 yn Y Ganolfan, Llanberis.

Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd a dywedodd ei bod yn falch o groesawu TT yn ôl wedi iddo gael damwain ddrwg. (LlHP).

**2 PRESENNOL AC YMDDIHEURIADAU**
Ward Padarn: Rhys ap Gwilym, Emlyn Baylis, Gwilym Evans, Heather L Jones, Kevin Morris Jones, Cyng. Kim Jones, Louise Price, Helen Sharp, Trystan Thomas.
Ward Peris: Iola Owen, Llinos Haf Pritchard,
Ymddiheuriadau: Nia Jones, Iwan Harding,
Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**3 DATGAN BUDDIANT**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**4 CADARNHAU COFNODION**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher yr 11eg o Ionawr, 2023 fel rhai cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd.
Cynnig ac eilio: IO / HS.

**5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**
1. **Llwybr Coed Nantucha'**
Er yr addewid i gyfarfod y Clerc i edrych ar y llwybr ddaeth neb o Gyngor Gwynedd (CG) i gysylltiad.
2. **Panel Penodi Clerc**
Dywedodd y Cadeirydd y bydd yr hysbyseb yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd yr wythnos.
3. **Cyrsiau Cynghorwyr**
Roedd y Clerc wedi dosbarthu dyddiadau'r cyrsiau gan Un Llais Cymru (ULlC) ac wedi cael peth ymateb.
4. **Diogelwch Plant Ysgol**
Cafwyd ymateb o ysgol Dolbadarn i'r llythyr a anfonwyd yn mynegi pryder am ymddygiad gyrwyr wrth anfon a chasglu plant yn y bore a'r pnawn. Dywedwyd fod yr ysgol yn ymwybodol iawn o'r pryder ac yn ceisio cael plant a rhieni i fod yn llawer mwy ymwybodol o'r peryglon. Roedd neges wedi ei anfon at rieni a gofalwyr yn eu hatgoffa ac roedd yr ysgol yn gwneud gwaith gyda'r plant i ddwyn sylw at y peryglon. Croesawyd y llythyr yn fawr, gan obeithio y daw gwell ymwybyddiaeth yn sgil y negeseuon a'r gwaith gyda'r disgyblion, ond roedd rhai yn dal i amau a oedd digon wedi ei wneud i danlinellu maint y perygl. Mae'n amlwg mai gyrwyr y ceir sydd ar fai, yn enwedig y rhai sydd yn parcio'n anghyfreithlon.

**5. CG - Llwybr Bwlch Maesgwm**
Adroddwyd fod y Clerc wedi derbyn copi o lythyr Prif Warden y Parc Cenedlaethol at CG, a bod hwnnw'n nodi fod y llwybr wedi ei drwsio ar y cyfle cyntaf ar ôl gwyliau'r Nadolig a'r Calan.

**6. Cyrsiau Hyfforddi a Lwfans Aelodau**
Yn ôl y Clerc mae nifer o aelodau wedi nodi eu bod am fynychu cyrsiau, ond roedd un neu ddau o aelodau yn mynnu na ddylai Llywodraeth Cymru fod yn gorfodi'r un Cynghorydd i fynd ar gwrs. Yn yr un modd roedd rhai hefyd yn gwrthwynebu'n ffyrnig bod yn rhaid i aelodau dderbyn lwfans am fod yn aelodau o'r Cyngor. Yn gynharach eleni penderfynwyd y byddai aelodau yn derbyn hynny, ond na fyddai neb yn hawlio unrhyw lwfans ychwanegol am waith fel Cadeirydd neu unrhyw swyddogaeth arall.
Penderfynwyd felly fod pob un aelod i dderbyn y lwfans, ond os mai dyna eu dymuniad bod modd iddynt anfon eu cyfraniad yn ôl i'r Cyngor. Byddai hynny yn cyfarfod gofynion y ddeddfwriaeth a grëwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae nifer fawr o aelodau o'r farn hefyd fod yna ormod o ymyrryd â gweithgarwch cynghorau cymuned a'u haelodau, ac mai dyna pam fod cymaint o gynghorau yn ei chael hi'n anodd denu a chadw aelodau.

**7. Gwaelod Llwybr yr Wyddfa (Maes Derlwyn)**
Hyd yma nid oedd CG wedi gosod arwydd i geisio perswadio gyrwyr rhag mynd i gyfeiriad y llwybr a sylweddoli nad oedd yno le i barcio. Yn y cyfamser mae CG i osod giât newydd ger y grid gwartheg. Efallai y bydd hynny yn atal rhai defaid o leiaf rhag dod i'r pentref!

**8 Trwyddedu Brooke House, Stryd Fawr**
Fel canlyniad i lythyr y Cyng. KJ a'r Cyngor hwn roedd y cais am oriau trwyddedu hirfaith ar gyfer y siop newydd yn Brooke House (o 6.00 y bore hyd 2.00 y bore wedyn) wedi eu lleihau, ond roedd yr ymgeisydd yn dal i ofyn am gael hawl i werthu alcohol o 6yb hyd at 12yh. Roedd KJ a'r Clerc wedi cael gwahoddiad i gyflwyno gwrthwynebiad y Cyngor i gyfarfod o Bwyllgor Trwyddedu CG oedd i'w gynnal ar y 10fed yn y gobaith o bwyso am leihau'r oriau ymhellach a dilyn patrwm siopau eraill sydd â thrwyddedau i werthu rhwng 8yb ac 11yh.

**6. MATERION ERAILL:**

**1. Y Feddygfa**
Oherwydd cwynion i aelodau ei bod yn anodd cysylltu â'r Feddygfa ben bore yn Llanberis bu trafod ar y mater. Mae'n ymddangos mai mater o lwc ydi llwyddo i gysylltu â'r Feddygfa i sicrhau apwyntiad i weld y meddyg. Yn ôl un aelod roedd wedi bod yn ffonio yn ddi-baid am awr a hanner un bore cyn llwyddo i gael ateb. Dywedwyd fod pobl yn sylweddoli fod llawer yn ffonio'r adeg hynny er mwyn ceisio cael amser i weld y meddyg, yn arbennig mewn achosion o frys, neu i gael gweld rhywun arall ond mae'n ymddangos fod y sustem bresennol o ateb galwadau yn hollol ddiffygiol ac annigonol. Mae'n ymddangos mai mater o lwc yw hi, a does dim modd trefnu ar ôl cael ateb ar gyfer y diwrnod canlynol. Mae'r holl beth yn dechrau eto'r bore wedyn.
Wrth benderfynu anfon gair at Reolwr y Feddygfa holwyd oni ellid trefnu bod yna sustem o 'fod mewn ciw' fel bod y galwr yn gwybod faint o bobl sydd o'i flaen yn aros eu tro. Ar hyn o bryd er bod y ffôn yn canu a chanu daw amser pan ddatgysylltir y galwr a chanlyniad hynny ydi bod yn rhaid ail ddechrau'r broses eto.
Adroddwyd hefyd ei bod hi ar adegau'n anodd cael ateb wrth y drws, wrth ganu'r gloch hefyd. Derbynnir y dywedir fod yna bwysau ar y gwasanaeth, ond gyda gwell trefn fe allai pethau o leia' fod yn haws. Codwyd y cwestiwn sawl un sy'n rhoi'r ffidil yn y to, neu'n penderfynu peidio trafferthu, er y dylen nhw mewn gwirionedd weld y meddyg.
Penderfynwyd yn unfrydol anfon llythyr at Reolwr Feddygfa.

**2. Mainc**
Derbyniodd y Cyng. KJ rodd ariannol oddi wrth gwmni Rheilffordd yr Wyddfa tuag at gael mainc ychwanegol i'r pentref. Soniwyd y gellid newid un hen, ond yna penderfynwyd mai gwell fyddai trwsio honno a chwilio am leoliad arall o fudd i drigolion. Pawb i ystyried lleoliad newydd posib erbyn y cyfarfod nesaf

**3. Cwch**
Cafwyd cais i'r Cyngor geisio dod a'r hen gwch llechi a godwyd rhai degawdau yn ôl o waelodion Llyn Padarn a oedd unwaith yn cartrefu yn Oriel Eryri yn ôl i Lanberis. Dywedwyd ei bod ar hyn o bryd mewn storfa yn yr Amgueddfa yng Nghaerdydd ond y byddai'r Amgueddfa Lechi yn well cartref iddi. Penderfynwyd cysylltu â'r Curadur yn Llanberis i ofyn a fyddai croeso i'r cwch yno pe bai modd ei dychwelyd.

**4. Ffordd i Goed Mawr**
Gofynnwyd i KJ gysylltu â CGi drafod cyflwr y ffordd.






**8 GOHEBIAETH**

**1. CG - Ras Treiathalon Slateman 2023**

Penderfynwyd gwrthwynebu'r bwriad i gau'r ffordd A4086 rhwng Maes Parcio Nantperis a Phenygwryd ar gyfer y ras uchod. Mae CG yn son am gau'r ffordd rhwng 8.30 a 12.15 ond ym marn yr aelodau mae hynny yn gyfnod rhy hir o gofio fod y ras i'w chynnal ar fore Sadwrn y 10fed o Fehefin. Teimlir ei fod yn ymyrryd gormod â'r gwasanaeth bysiau 'Sherpa'r Wyddfa' ac awydd pobl i fynd i Fwlch Llanberis a Pen-y-Pas.

**2. Gwaith Ffordd A4086**

Cafwyd golwg ar gopi o lythyr a anfonwyd oddi wrth un o brif swyddogion CG at KJ yn dilyn cyfarfod rhyngddi hi a swyddogion CG â chynrychiolwyr cwmnïau oedd yn gweithio i osod y dwythellau ar gyfer y llinell drydan newydd o dan y ffordd i gysylltu'r Orsaf Drydan a Phentir a'r rhwydwaith trydan cenedlaethol. Mae'n amlwg fod y cyfarfod wedi pwysleisio pa mor rhwystredig oedd gyrwyr am fod cerbydau gwaith yn aml yn dal trafnidiaeth yn ôl, roedd sôn hefyd fod lle i gredu fod y gwaith yn cael effaith ar fusnesau yn Llanberis a bod trigolion lleol yn aml yn hwyr i'w gwaith ac i godi plant oherwydd y goleuadau traffig niferus.

Mynegwyd fod angen swyddog cyswllt fel bod problemau'n cael eu datrys ynghynt a bod angen trafod y gwaith ar ôl y Pasg i gyd-fynd a'r cynnydd mewn ymwelwyr.

Yn y cyfamser dylai pawb sylweddoli pwysigrwydd y gwaith a bod yn llawer parotach i gychwyn ynghynt oherwydd y goleuadau.

**3. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)**

Nodyn yn atgoffa fod cymorth ar gael mewn rhai ardaloedd yn y Parc i wella adeiladau traddodiadol, a nifer o gyfarfodydd galw-i-mewn. Ym Metws y Coed ar y 15fed, Ogwen ar yr 2ail o Fawrth a Maentwrog ar yr 11eg.

**4. Llywodraeth Cymru (LlC)**

Mae LlC newydd gyhoeddi ar lein adroddiad Adolygiad Gweinidogol o Chwarae a'r Papur Cefndir sy'n berthnasol.

Cyfeiriad ar-lein: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygiad-gweinidogol-o-chwarae-cyhoeddi-adroddiad-y-grwp-llywio

**5. Achub Bywyd Cymru / ULlC**

Arolwg o ddiffibrilwyr, ond gan nad yw'r Cygnor hwn yn gyfrifol am rai lleol, mae'r arolwg yn amherthnasol.

**6. Garddwest**

Llythyr yn holi a oedd aelod o'r Cyngor am gael eu hystyried i gael gwahoddiad i arddwest ym Mhalas Buckingham. Na

**7 CYNLLUNIO**

**CYNGOR GWYNEDD**

Roedd yr aelodau wedi derbyn rhybudd am y ceisiadau isod.

•C23/0023/15/LL - Storfa Glyn Rhonwy, Llanberis - Cais am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer addasiadau ac estyniadau i Adeilad 1 - Dim Sylw

• C23/0077/15/LL - Safle Bae 2, Maes Parcio Y Glyn, Llanberis - Cais cynllunio llawn (diwygiad i ganiatâd cynllunio C22/0676/15/LL), i alluogi defnyddio naw bae Cartref Modur ar gyfer defnydd arhosiad byr dros nos safle Maes Parcio 2 Llanberis Y Glyn - Dim Sylw

**9 MATERION ARIANNOL**

1) Yn y Banc ar yr 28ain o Ionawr, 2023

Cyfrif Cyfredol: £51,055.24 Cyfrif Cadw: £66.69

2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:

CYFANSWM ... ... £406.10

3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/12/2022 a 28/01/2023:

Dim

Cynnig ac eilio'r materion ariannol: EB / HS

4) Er gwybodaeth dywedodd y Clerc fod cost adnewyddu'r goleuadau Nadolig a'u gosod eleni wedi bod yn £4,534, ond gan fod cyfraniadau o £3,229 wedi eu derbyn tuag atynt (a diolch amdanynt) nad oedd y gost i'r Cyngor wedi bod yn ddim mwy na £1,305 allan o gyllideb o £2,000 a neilltuwyd ar gyfer goleuadau. Yma mae'n rhaid diolch i gwmni trydanol Jason Jos Cyf am yr holl waith a wnaeth Jason i gynorthwyo'r Cyngor i brynu a gosod y goleuadau, a hynny yn rhad ac am ddim.

5) Derbyn Cydnabyddiaeth - lwfans aelodau:

Bu trafodaeth ynglŷn ag oedd hi'n orfodol i Gynghorwyr i dderbyn y lwfans blynyddol i Gynghorwyr. Roedd y mwyafrif yn credu fod hynny yn annheg ac mai mater i'r unigolyn oedd derbyn neu beidio. Er mwyn bod yn sicr dywedodd y Clerc y byddai'n holi ymhellach ynglŷn â hyn.

**10 ADRODDIADAU ERAILL**

**1. Ymweliad Siemens**

Adroddwyd fod y Cynghorydd Sirol KJ ynghyd a nifer o aelodau wedi bod ar ymweliad a safle cwmni Siemens ac wedi cael croeso a gwybodaeth am weithgarwch y cwmni sydd ar fin creu rhyw 100 o swyddi ychwanegol.

**11 CYFARFOD NESAF**

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fercher 8 Mawrth, 2023 am 7.00yh yn Y Ganolfan. Arwyddwyd a chafwyd yn gywir: Is Gadeirydd: Gwilym Evans Clerc: Dei Tomos

**Dyddiad: 8 Mawrth, 2023**

# Arferion Pasg

Beth yw ystyr y Pasg i chi? Oes ganddoch chi draddodiadau teuluol? Hela wyau Pasg o gwmpas yr ardd, bwyta *hot cross buns*, bwyta siocled, cael dillad haf newydd neu fynd i'r capel neu'r eglwys? Gŵyl Gristnogol yw'r Pasg wrth gwrs, sy'n dathlu atgyfodiad Crist ar ôl ei groeshoeliad. Mae llawer o Gristnogion yn dathlu'r Pasg trwy fynychu gwasanaethau arbennig yn yr Eglwys neu'r Capel, sy'n dathlu atgyfodiad Iesu, ac iachawdwriaeth dynolryw. Mae canhwyllau a blodau'n bwysig i'r seremonïau hyn, gan fod canhwyllau'n cynrychioli'r ffordd y cafodd Iesu ei adnabod fel "golau'r byd", ac mae blodau'n cynrychioli bywyd newydd, a oedd yn arwydd o atgyfodiad Iesu.

Fodd bynnag, mae'n debyg byddai pobl wedi mynd ati i ddathlu, cyn dyfodiad Cristnogaeth. Byddent yn dathlu diwedd dyddiau hir y gaeaf gyda Chyhydnos y Gwanwyn (*Spring Equinox*), cyfnod pan mae natur yn deffro a chylch adnewyddu yn cychwyn. Gwelir wyau fel symbol o ail-eni neu adeni ers canrifoedd ac maent wedi eu mabwysiadu gan sawl diwylliant. Roedd yr Eingl-sacsonaidd yn dathlu'r adeg yma o adnewyddiad trwy alw Eostre neu Ostara, duwies y gwanwyn, y wawr a ffrwythlondeb a dyna i chi darddiad y gair Saesneg - Easter neu 'r Pasg i ni yma yng Nghymru fach.

Un peth fydda i'n ei wneud bob blwyddyn, ar wahân i brynu wy Pasg a dillad newydd i'r wyrion a'r wyresau, ydy creu coeden Pasg. Mae'r goeden yn cael ei chreu o frigau ac yna'n cael ei haddurno efo rhubanau ac wyau wedi eu haddurno, (gasglwyd dros y blynyddoedd, y mwyafrif o Prague a Krakov)!



Mae pobl Gwlad Pwyl, Wcráin a gwledydd eraill Dwyrain Ewrop y paentio wyau yn ystod y Pasg a'u crogi ar ganghennau yn eu tai. Yng Ngogledd Lloegr, mae rholio wyau i lawr llethr yn draddodiad o ddathliadau'r Pasg. Cystadlu i weld pwy all rholio wy wedi ei ferwi i lawr allt heb iddo gracio. Does wybod pam!

Yn y Canol Oesoedd roedd yr Eglwys yn gwahardd bwyta wyau a chynnyrch anifeiliaid yn ystod deugain diwrnod y Grawys. Felly ar Sul y Pasg roedd wyau'n rhywbeth moethus, i'w mwynhau, yn enwedig os doeddech chi ddim yn gallu fforddio cig. Addurnwyd yr wyau oedd wedi eu cadw ar un ochr i'r plant ac erbyn Oes Fictoria ddechreuwyd y traddodiad o wneud wyau cardfwrdd, wedi eu gorchuddio efo satin a'u llenwi efo danteithion y Pasg. Arweiniodd hyn at y sioe dros ben llestri o wyau o bob lliw, maint a llenwad sydd i'w gweld yn y siopau erbyn hyn … heb sôn am y crème Eggs bondigrybwyll sy'n ymddangos yn yr archfarchnadoedd ar yr 2ail o Ionawr! Dydw i ddim yn ffan ohonynt raid i mi gyfaddef - lot rhy felys - ond dyna ni, pawb at y peth y bo.



A gan fy mod wedi taflu dŵr oer ar wyau bach gor-felys, gyda'r Pasg ar ein gwarthaf, dyliech gael bwcedi o ddŵr yn barod i daflu dros eich gilydd - wel mi fasech chi tasech chi'n byw yng ngwlad Pwyl! Falch iawn, o ystyried y tywydd tra dwi'n ysgrifennu hwn, mod i'n byw yn Neiniolen.

Ond i lawer o bobl, yn enwedig os oes ganddynt blant go ifanc, mae'n gyfle i fynd am helfa wyau Pasg o gwmpas yr ardd, gyda help Bwni'r Pasg neu beidio, neu mewn parc neu blastai sy'n agored i'r cyhoedd, a chyfle i fwyta siocled!

Sut bynnag fyddwch chi'n dathlu'r Pasg - Pasg hapus i chi i gyd.



# Garddio

**EBRILL**
Mae'r gwanwyn bellach i'w weld o'n cwmpas ym mhob man, er gwaetha'r eira, ddaeth a phobman i stop yn nhraean cyntaf mis Mawrth! Bu trafodaeth ddifyr ar Gweplyfr yn ddiweddar am ddywediadau yn ymwneud ag eira'r adeg yma o'r flwyddyn - 'Safith eira Chwefror ddim hirach nag wy ar ben trosol" neu beth am, 'Ni saif eira mis Mawrth, Fwy na menyn ar grystyn torth.' Ond gan mai rhifyn mis Ebrill yw hwn, beth am, 'Ni saif eira ym mis Ebrill, fwy na ŵy ar ben ebill (sef hen air am drosol). Dwi'n sicr am drio cofio rhai o'r rhain, gan ddiolch ar yr un pryd na pherodd yr eira'n hir!

Dyma'r amser felly i wisgo côt, het a menig a thorchi llewys yn ein gerddi ond cymryd gofal eich bod yn lapio gan fod y gwynt yn dal i fod yn fain ac yn gryf ar brydiau.



Dyma fis y blodau pinc a gwyn ar y coed *malus* a *prunus*, fyddai byth yn blino ar edrych ar y coed hardd yma, er mae sioe fyrhoedlog gawn ni, a'r garddwyr taclus yn diawlio'r llanast wna'r *confetti* petalau ym mhobman. Mae pob math o goed *malus* ar gael a debyg bod un fyddai'n siwtio eich gardd chi. Mae ganddynt flodau pinc neu wyn yn y gwanwyn a ffrwythau hardd ar y brigau ym misoedd yr hydref gyda dail rhai ohonynt yn amryliw. Mae'r blodau'n rhoi neithdar i bob math o bryfetach tra bo'r ffrwythau yn wledd i sawl math o adar neu famaliaid. Mae '*Malus toringo 'Scarlett'* yn hyfryd gyda blodau pinc tywyll ymysg dail ifanc gyda gwrid o liw efydd arnynt, sy'n heneiddio i fod yn wyrdd tywyll cyn troi'n sgarlad a phorffor yn yr hydref. Tra bo'r uchod yn tyfu at tua thair medr (10 troedfedd) mae '*Malus Toringo 'Aros'* yn fath bychan sydd yn tyfu i tua medr o uchder, felly byddai'n addas ar gyfer ei roi mewn potyn. Os ydach chi'n plannu coeden mewn potyn, sicrhewch eich bod yn defnyddio compost di-fawn o ansawdd da a'i bwydo'n gyson. Dyliech ei symud ymlaen i botyn ychydig yn fwy bob blwyddyn neu docio'r gwreiddiau.





Haleliwia! O'r diwedd bydd modd plannu'r rhan fwyaf o fathau o hadau. Dwi wedi bod ar dân am gael dechrau, ond wedi dysgu peidio cychwyn yn rhy fuan, oherwydd y tywydd, fydd fel arfer yn parhau i fod yn oer a gwyntog yma ar lethrau Moel Rhiwen. Mi ydw i wedi plannu rhai hadau yn y '*propogator*' yn y tŷ ac wedi dilyn cyngor welis i mewn papur newydd, sef dod a'r sach o gompost di-fawn i mewn i'r tŷ, cyn mynd ati i hau, fel bod y pridd yn gynhesach, mi weithiodd hynny llynedd. Ond fel arfer y broblem ydy, beth i'w wneud efo'r planhigion bach unwaith fyddan nhw wedi codi eu pennau uwchben y compost yn y propogator? Silffoedd ffenast y tŷ fydd hi debyg gan ddiolch am ŵr amyneddgar a gweddïo na chawn ni lawer o fisitors am sbel. Yn y mannau cynhesaf mae'n amser i blannu pethau y tu allan, ond gochelwch rhag barrug a rhew dros nos. Dwi'n eu harfer yn raddol yn y sied a'r tŷ gwydr fel arfer cyn mentro a dod a nhw i mewn dros nos ar ôl eu gadael allan i gynefino a'r tywydd mwy gerwin yma. Gallwch hefyd eu gorchuddio efo 'fleece'os ydy'n oeri gyda'r nos. Da ydy ysgol brofiad.

Os ydy'n wlyb, peidiwch â throedio'r lawnt fwy na sydd raid, ond os gewch chi gyfnod sych, mae'n amser da i'w hawyru drwy balu fforc drwyddi fesul troedfedd.



**Propogator**

**TASGAU**
1. Bachwch ar bob cyfle i chwynnu! Mae'n werth eu chwalu rŵan cyn iddyn nhw gael gafael.
2. Clymwch y rhosod dringo, barf yr hen ŵr (*clematis)* a blodau'r dioddefaint (*passion flowers)* ac unrhyw blanhigion lluosflwydd tal. Rhowch fwyd i rosod o bob math ym mis Ebrill ac wedyn dechrau mis Mehefin. Rhowch daenfa (*mulch*) organig o gwmpas eich coed rhosod, heb gyffwrdd y coesau.
3. Tociwch lwyni sydd wedi blodeuo dros y gaeaf e.e. *jasmine* a llwyni *daphne* a *viburnum* os oes angen. Dyma'r amser hefyd i docio'r coed sy'n cael eu tocio i gael dail neu goesau lliwgar e.e. eucalyptus, lime a choed helyg. Yn olaf os nad ydach chi wedi tocio'r llwyn pila pala - *Buddleia Davidii* ewch ati i wneud rŵan, gan adael coesau o ryw 6 - 12 modfedd (15 - 30cm) ar ôl ac mi gewch fwynhau blodau'n hwyrach yn yr haf.
4. Hir yw pob ymaros, ond rŵan ydy'r amser i hau blodau blwyddol a pherlysiau!
5. Bydd planhigion tŷ hefyd yn dechrau deffro ac felly gallwch ddechrau dyfrio mwy arnynt a rhoi gwrtaith pwrpasol iddynt. Mae'n amser da hefyd i rannu planhigion deiliog i gael mwy o blanhigion a chreu planhigion iachach na'r rhai sydd wedi bod yn yr un hen botyn ers blynyddoedd. Dyma'r amser i mi roi'r goeden orennau allan yn ôl ar y patio, er mi fyddai'n dod a hi mewn os yw'n gado noson oer.
6. Ewch ati i ail-hadu unrhyw fannau moel yn eich lawnt. Fforchiwch y rhan moel yn ysgafn cyn taenu'r hadau efo llaw, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r paced. Taenwch gompost yn ysgafn drostynt a'u dyfrio'n ofalus.
7. Gallwch blannu bylbiau sy'n blodeuo yn yr haf megis lili, *gladioli*, *begonia* a'r *eucomis*. Os nad oes ganddoch chi le heulog iddyn nhw gallwch eu plannu mewn potiau a'u symud fel y dymunwch.
8. Chwiliwch am unrhyw blanhigion sydd wedi hadu eu hunain e.e. bonet nain (*aquilegia*) bysedd y cŵn neu *verbena bonariensis*. Teneuwch nhw fel bod lle i blanhigion dyfu a llenwi eich borderi. Rhatach na phrynu paced o hadau a hwyl gweld pa gyfuniad o liwiau gewch chi.
9. Dwi wedi darllen yn rhywle , bod plannu hadau rhuddygl (*radish*) yn ffordd dda i weld os yw'r pridd yn ddigon cynnes i ddechrau plannu pethau. Dydyn nhw ddim yn ddrud ac os ydyn nhw'n egino, gallwch wedyn fynd ati i hau yn hyderus, heb boeni y byddan nhw'n eistedd yn y pridd yn fferru ac yna'n pydru, pwdu neu'r ddau! Yn sicr fyddai ddim yn hau pannas yn fuan, dydyn nhw ddim yn egino'n hawdd beth bynnag. Beth i'w plannu? Moron (caraints i Fonwysiaid), rhuddygl. Ymhellach 'mlaen yn y mis, pannas, ysgall ddail yr enfys (*Rainbow Chard*) a betys coch.
10. Mi fyddai'n rhoi hadau letys cymysg mewn potyn a bag plastig drosto fel *cloche* a'i roi yn y tŷ gwydr i ddechrau egino. Geith y pot fynd allan pan fydd hi wedi cynhesu, ac mi gai sawl toriad o letys buan. Y gamp fydd cofio hau bob rhyw dair wythnos i sicrhau salad ar ein platiau drwy'r haf.
11. Ym mis Ebrill byddwch yn plannu eich prif gnwd o datws, gan gofio rhoi digon o dail iddyn nhw i gael cnwd da.
12. Yn y tŷ gwydr, mae'n amser hau tomatos a'r blodau blwyddol.

***Rhosyn Mynydd***

# Ar ben arall i'r lein


Wyddoch chwi be, mae'n anodd cael digon o le i roi lawr be sy'n mynd ymlaen yn y byd pysgodfaol ar y funud, diolch i'r drefn nad yw'r tymor ei hun wedi cael gafael ynddi oherwydd sut mae'r tywydd yn ymddwyn yn yr hen le 'ma. Do mi gefais gip olwg o gwmpas Pont Crawia bore agoriadol y tymor sef 3ydd Mawrth, 4ºC oedd y tymheredd, felly doedd dim pryfetach i weld o gwmpas y lle a rhyw hen liw du ar y dŵr. Felly cymerais sylw o be ddywedodd Alwyn Williams (Barbwr) wrthyf flynyddoedd maith yn ôl *"Os oes 'na hen liw du ar y dŵr, waeth iti fynd adref ddim"* ac felly y buo hi, a segur yw'r enwair hyd at heddiw fan leiaf sef y 6ed.

Ond wrth daro golwg ar beth sydd o'm blaen yma, mae'n anodd gweld ar y funud o ble daw'r amser i daflu pluen, oherwydd rhaid trio fy ngorau i gadw ar ben be sy'n digwydd o gwmpas y lle yma. Problem sy'n codi ei phen unwaith eto yw Llyn Padarn, mae'n sicr eich bod wedi diflasu ar glywed be sy'n digwydd ar ei ddyfroedd, a dwi'n cyfaddef ein bod fel cymdeithas wedi bod fel tiwn gron ynglŷn â'r problemau carthffos a'r canlyniadau.

Wel yn ddiweddar mae ein sylw wedi ei dynnu at y ffaith bod tyfiant annaturiol i weld yn y llyn yn rhedeg o hen dir Dafydd Taff ac yn ymestyn bron at y '*landing*' ac am ganol y llyn. Mi wnaethom gasglu tipyn o'r tyfiant a cheisio ei adnabod - wel dyma be a ddaeth 'Mae yn dyfiant o chwyn ymledol a adnabyddir fel *Lagarosiphan Major* (curly waterweed ac nid Nutall fel sydd ar arwydd y cyngor) mae'n cael ei fwydo gan lefel uchel o phosphadau yn nŵr y llyn. Mae perygl mawr i rai sy'n defnyddio'r dyfroedd ei gario i ddyfroedd eraill y fro, mae yn barod i'w weld yn ymledu i lawr y llyn tuag at Penllyn. Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi rhoi arwyddion i fyny wrth faes parcio'r



**Chwyn Padarn**




**Rhybudd Padarn**




**Llyfr Huw Price Hughes**

pentref yn dynodi'r broblem ac yn cynghori defnyddwyr i gadw'n glir o'r rhan yma o'r llyn. Cawn weld yn y misoedd nesaf os yw'r broblem yn cynyddu.

O ble daeth y tyfiant? Mae rhai o'r arbenigwyr yn dweud ei fod yma ers amser maith, ond yr unig beth 'rwy'n gallu ei ddweud yw fy mod i yn bersonol wedi bod yn sgota'r lle yn rheolaidd dros nifer fawr o flynyddoedd, ac eleni yw'r tro cyntaf i mi ddod ar ei draws. Mae'r un tyfiant yn achosi cryn bryder yn ardal y llynnoedd a hefyd yn rhai o ddyfroedd Môn. Sgwn i os yw'r holl nofio, canws, byrddau hwyl fyrddio ac ati sy'n digwydd o lyn i lyn wedi dod â'r haint chwyniog yma i'r fro? Y peth nesaf mwyaf tebyg yw bydd rhai o lynnoedd y Parc Cenedlaethol yn cael eu heintio â'r un broblem. Cawn weld faint o sylw fydd yn cael ei gymryd o'r arwydd, dim o gwbl fel 'rwy'n clywed.

Un bach arall ddaeth ein ffordd - derbyniwyd holiadur gan sefydliad *Eryri - Bywiog* (snowdonia-active) sydd â'i swyddfa ym Mrynrefail o dan y teitl *'Arolwg newydd i weld gwerth economaidd a chymdeithasol antur i Gymru'*. Yn siomedig iawn sylweddolais fod pob dim dan haul wedi ei restru - canŵio, nofio, hwylio, dringo ac yn y blaen, ond dim byd am bysgota. Cysylltais â'r swyddfa ym Mrynrefail a chael y cyngor i gysylltu â'r tîm ymchwil sef 'Miller Research' a dyma ddaeth yn ôl -

fod yr arolwg yn cael ei gynnal drwy gais eu cleient 'Fforwm Arfordirol Sir Benfro a Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru (STAC)' a bod dim ond gweithgareddau sydd wedi ei rhestru fel gweithgareddau rhestredig STAC. A tydi 'sgota ddim yn weithgaredd antur sy'n dod o dan ddiffiniad STAC o antur a gweithgareddau cysylltiedig. Chlywais ddim y fath sbwriel erioed - mae un peth yn sicr, mae mwy o antur i gael o fachu eog neu wyniedyn mawr ar y Finiog na chanŵio ar Lyn Padarn. Does eisiau gras hefo rai yn 'does, ond efallai fod eisiau edrych ymhellach yn y fan hyn, a yw hyn eto yn rhyw ymgais i wneud i ffwrdd a 'sgota tybed?

Rhaid diolch i Gyngor Cymuned Llanrug am gymryd sylw o'r broblem sy'n ymwneud â gwaith carthffos y pentref, dyma'r unig gyngor cymuned dwi'n meddwl sydd wedi trafod problem sy'n berthnasol i holl bentrefi'r fro. Da gweld hefyd fod Dŵr Cymru wedi cyfarfod ag aelodau'r cyngor yn ei safle ar y Finiog i ddangos fod y gwaith yn cwrdd â'r gofynion. Ond wrth gwrs y gwirionedd yw nid yw pethau yn gweithio - dyma'r oriau mae'r gwaith yma wedi bod yn arllwyso yn y flwyddyn ddiwethaf yn groes i'r gofynion. Nifer o arllwysiadau - 103; yn rhedeg am 1,353 o oriau. Dim data ar gael o'r cyfnodau 28/2/22 - 31/3 ac wedyn o 23/8 - 1/12/22. Wrth gwrs mater i chwi yw penderfynu os yw hyn yn dderbyniol.

Beth am y 'sgota, wel erbyn y rhifyn nesaf bydd Llyn y Dywarchen wedi agor ei ddrws, a'r fan yma yw'r dynfa ar ddechrau tymor. Bydd y stocio cyntaf wedi digwydd wythnos olaf Mawrth, gyda'r stoc yn dod o'r ddeorfa, o bosib eleni bydd y brithyll brown yn ddigon i dynnu dŵr o ddannedd holl 'sgotwyr y fro.

I gloi dyma un bach arall at eich sylw, 'rydym wedi bod wrthi am beth amser yn casglu tipyn o hanes y gymdeithas, sy'n ddifyr iawn. Diolch i Wasg Dwyfor am ei argraffu, mae 'nawr ar gael am y gost o'r argraffu yn unig. Cysylltwch os am gopi.

**Huw Price Hughes**

# Dyddiadur y gath ddŵad/ Bobliadur - Rhan 13

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros ddwy flynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Mae'n debyg bod cathod ymysg yr anifeiliaid anwes mwyaf poblogaidd yn y byd. Maent wedi bod yn gysylltiedig â 'r ddynol ryw ers bron i 10,000 o flynyddoedd. Dim syndod felly bod dros 500 miliwn o gathod domestig yn y byd. Oeddach chi'n gwybod bod traean o berchnogion cath/od yn credu eu bod yn gallu darllen eu meddyliau. Dydw i ddim yn siŵr am hynny, ond yn sicr maent yn ddigon call i wybod pan yw rhywbeth ar droed neu 'ar bawen' i ddefnyddio geiriau Bob.

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori :

Ges i fy neffro'n gynt nag arfer 'bore 'ma! Dwi'n cwyno dim, achos ges i frecwast yn gynt, a chael mynd am ryw dro bach o gwmpas yr ardd, tra roedd hi'n brysur tu allan yn bwydo'r pethau bach pluog. Dydy hi'n dal ddim yn gynnes iawn ond does dim gwynt na glaw heddiw, sy'n wahanol i'r arfer. Ta waeth, dwi'n amau'n gryf bod yna reswm pam ddaeth y ddeu-droed fach i lawr yn gynnar… Dydy cathod ddim yn dwp a dwi'n ei nabod hi a fo'n eitha' da erbyn hyn.

Pan ddaeth o i lawr, o le bynnag maen nhw'n clwydo yn y nos, roedd yna oglau glân arno fo, nid fod o'n drewi cofiwch, jest roedd dillad glân amdano fo hefyd. Sylwais ei fod yn gwylio lle'r oedd o'n eistedd, rhag cael dipyn o fy mlew i hyd ei drowsus. Mi oedd hithau hefyd yn lanach nag arfer, ond wedi gwisgo ei dillad o ddydd i ddydd arferol i osod tân oer, carthu fy nhoiledau a bwydo'r petha bach pluog.

Diflannodd y ddau i fyny'r grisiau wedyn. Dwi'n clywed sŵn eu traed nôl ac ymlaen uwch fy mhen. Yna, trwy chwareli'r drws gwydr dwi'n gweld bocs hirsgwar, du'n cael ei lusgo ar draws y teils ac i'r car. O diar, dwi wedi gweld y bocs hwnnw o'r blaen, y tro dwaetha ddaeth hwnna i'r golwg welais i ddim mohonyn nhw am noson gyfan. Fues i yn y tŷ, ar fy mhen fy hun fach, yn cadw llygaid ar bethau. Mae'r ddeu-droed fach wedi newid i ddillad mwy crand, ac yn pasio heibio efo bag arall a'i roi yn y car.

Daw hi'n ôl i'r gegin a thywallt rhai o'r bisgedi bach neis, sydd efo canol meddal, blasus, i fy mhowlen. Dwi'n ei hanwybyddu hi'n llwyr, wedi'r cyfan fedrai eu bwyta nhw mewn llonydd pan fyddan nhw wedi mynd. Peth da bod gen i Ll'god yn gwmni i



mi. Dwi'n troi cefn ar y gegin a neidio ar un o'r cadeiriau sydd o dan y bwrdd. Dyma un o fy hoff lefydd i gysgu, yn glyd ac allan o ddrafftiau. Mae hi'n dod draw i geisio rhoi mwythau i mi ac yn cael swadan sydyn, i ddangos iddi fod i'n dallt yn iawn beth sydd ar bawen. Dwi'n clywed y goriad yn troi yn y drws a sŵn y car yn mynd.

Distawrwydd. Dim sŵn eu traed nhw'n cerdded o gwmpas, dim sŵn o'r bocs bach nac o'r bocs mawr efo lluniau, dim hyd yn oed sŵn y logiau'n clecian yn y bocs tân. Fawr o sŵn tu allan chwaith, faswn i wedi gallu bod, 'tasa na ddeu-droediaid yma i agor y drws cefn i mi. Dim ots, mi wnâi beth mae cathod yn wych am ei wneud, gai'i napan bach. Ella na fyddan nhw ddim yn hir…

Mae'n rhaid mod i wedi cysgu'n drwm, achos y peth nesaf welai ydy'r deu-droed mawr mawr. Mae o'n fwy na'r un sy'n byw yma efo fi. Erbyn meddwl maen nhw ddigon tebyg mewn rhyw ffordd. Ta waeth , mae o'n rhoi bwyd i mi a gneud siŵr fod fy nhoiled yn lân a chwarae teg, mae o hyd yn oed yn pwyso'r botwm hud ar y wal, fel bod gwres yn dod i'r ystafell. Cofiwch chi dydy hynny ddim cystal â'r bocs du lle mae'r tân, ond mae'n well na dim. Mae o'n ista am dipyn efo fi, cyn diflannu.

Dwi nôl ar fy mhen fy hun bach, ond mae'r bwyd yn flasus fel arfer, dwi'n gynnes ac yn chwarae efo Ll'god am dipyn.

Bore wedyn mae'r un mawr mawr, yn ôl, a gan mod i bellach wedi blino ar fy nghwmni fy hun, dwi'n gadael iddo fo roi mwythau i mi, a heb feddwl dwi'n canu grwndi iddo fo. Wedi'r cyfan mae o yma, a dydy'r deu-droediaid arferol ddim

Wyddoch chi be? Ers cyrraedd yma mae'r holl ddeu-droediaid, bach, hen, ifanc, mawr a mawr mawr, sydd yn dod yma'n glên efo fi. Does neb wedi fy mrifo fi erioed, er weithiau dwi'n flin pan mae rhai o'r rhai bach yn gweiddi neu'n symud yn sydyn heb i mi ddisgwyl hynny. Wna'i gyfadda, erbyn hyn dwi'n licio cwmni, a dwi'n licio pawb sy'n dod yma. Jest gobeithio na fydd y deu-droediaid arferol ddim yn hir cyn dod adra. Wedi'r cyfan mae hi'n dal yn ddigon oer i fod angen tân.

Dwi'n licio byw yn y tŷ yma, efo pwy bynnag ddaw yma. Dwi adra."


SPAR

Y Storfa, Spar, Llanrug

Sgwâr Llanrug

01286 673108



Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**

a chroeso cynnes

Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am



AMGUEDDFA CYMRU

**Ydych chi'n hoffi siarad efo pobl?**
**Ydych chi'n falch o'ch hanes a'ch treftadaeth?**
**Ydych chi'n frwdfrydig ac yn weithgar?**
**Beth am ymuno â ni yn Amgueddfa Lechi Cymru?**

Rydym yn chwilio am staff i weithio yn y timau canlynol:

**Profiad ymwelwyr** **Addysg** **Siop**

Mae cyfleon dros yr haf ac ar benwythnosau ar gael

**Cyflog yr awr yn cychwyn o £12.24**

Os oes gennych ddiddordeb, ysgrifennwch lythyr byr yn egluro pam yr hoffech ymuno â'n tîm neu codwch y ffôn i drefnu sgwrs.

02920 573700/llechi@amgueddfacymru.ac.uk

**Dyddiad Cau 28 Ebrill 2023**

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis. LL55 4TY



ECO'r Wyddfa

Cysylltwch â'n Trefnydd
Hysbysebion a Dosbarthu

**Hefin Jones**
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com




# Ffafr orfodol: '*Boon Land*', Llanddeiniolen

Soniais yn y golofn hon y mis diwethaf fod Capel Seion wedi ei adeiladu ym 1818, a'i fod yn cael ei ddangos ar Fap Degwm Llanddeiniolen mewn cae a elwid *'boon land'*. Yr oedd tair o ardaloedd o fewn plwyf Llanddeiniolen eisoes wedi eu lleoli gan R O Roberts, Prifysgol Abertawe ond yn wreiddiol o'r Rhiwlas. Cyhoeddodd erthygl am y tiroedd hyn yng nghylchgrawn *Folk Life* ym 1974, ond yr oedd eisoes wedi sôn amdanynt flwyddyn ynghynt yn ei gyfrol werthfawr *Farming in Caernarvonshire around 1800* a gyhoeddwyd gan Archifdy Sir Gaernarfon (fel yr oedd bryd hynny) ym 1973.


Ond beth yn union oedd *'boon land'* a '*boon work'*? Ystyr wreiddiol y gair *'boon'* oedd ffafr, ond datblygodd i olygu gwaith gorfodol nad oedd tâl amdano. Yn y flwyddyn 1555 daeth Deddf y Priffyrdd i fodolaeth, ac yr oedd gorfodaeth ar y plwyfolion i benodi Arolygydd y Priffyrdd; gwaith di-dâl am dymor penodol. Teitl arall a roddwyd arno oedd *'Boonmaster'*. Ei swyddogaeth oedd trefnu i bob dyn o allu corfforol roi pedwar diwrnod o lafur am ddim bob blwyddyn i gynnal y ffyrdd plwyfol. Roedd angen iddo hefyd archwilio'r ffyrdd plwyfol deirgwaith y flwyddyn. Mewn gwirionedd roedd plwyfolion yn penodi un *'i wneud ffafr'* â hwy – ond yn cael eu gorfodi i wneud hynny gan ddeddf gwlad.

Beth felly oedd tir a elwid *'boon land'*? Yn ei erthygl yn *'Folk Life'*, dyma sydd gan R O Roberts i'w ddweud: *"It was surmised that the phrase relates to land in respect of which boon works were performed for the lord of the manor, and this supposition derived support from the tradition that some slate quarrymen from Llandeiniolen were under an obligation to work for a number of days in the harvest at the home farm of Assheton Smith…"* Traddodiad yn hytrach na gwybodaeth ffeithiol bendant oedd yn gysylltiedig â'r tair ardal o fewn y plwyf. Mae'r ardaloedd yn cael sylw eto gan R O Roberts yn ei bennod *'Dull Anghyffredin o Ddal Tir'* yn Atlas Sir Gaernarfon (1977). Yn yr erthygl honno, mae'n cyfeirio at Fap Arolwg dyddiedig 1777 o Stad y Faenol, a'r tiroedd dan sylw yw Brynrefail Mawr, y Waen Fawr (ger Penisarwaun) a Cefn y Braich, Rhiwlas. Mae'n awgrymu Waun Baw Gwyddau yn ardal Rhiwlas hefyd. Roedd y tair ardal yn parhau i gael eu labelu fel *'boon land'* mor ddiweddar â 1869.

Ond, yn yr oll o'i drafodaethau ynglŷn â *'boon land'* ym mhlwyf Llanddeiniolen, nid yw'n sôn o gwbl am y cae bychan yn Seion ble'r adeiladwyd capel arno gan y Wesleaid.

Mae R O Roberts hefyd yn tynnu sylw at y ffaith mai prin iawn yw'r enghreifftiau o gyfeiriadau at *'boon work'* a *'boon land'*. Er hynny, maent yn bodoli. Deuthum ar draws dwy enghraifft yn Lloegr yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg – mymryn hwyrach na'r cyfeiriad ym 1869 yn Llanddeiniolen. Mae'n amlwg o'r ddau gyfeiriad fod cyfraith gwlad yn parhau i dderbyn bodolaeth *'boon work'*.

Daw'r enghraifft gyntaf o stâd o'r enw Blyth Hall ger Worksop. Ym 1880, aeth perchennog y stâd â'i denant i gyfraith am beidio â chyflawni *'boon work'* a oedd yn golygu deunaw diwrnod




**Rhif 32: Boon land Seion ar Fap Degwm Llanddeiniolen a'r capel yn cael ei ddangos fel sgwaryn bychan du. Rhif 33: Fferm Llys y Gwynt.**

di-dâl yn cario glo o gamlas gyfagos i'r plasdy. Dadleuai'r perchennog fod cyn-denant wedi cyflawni'r *'boon work'* hwn yn ddi-dâl, ond nad oedd y tenant presennol wedi cadw at yr hen drefn. Ar fater hollol dechnegol, cafwyd o blaid y tenant oherwydd nad oedd y perchennog wedi gwneud cais am y gwaith. Y gair 'cais' yn y lês a enillodd y dydd i'r tenant – a'i gostau cyfreithiol. Does wybod a wnaeth y perchennog gais y flwyddyn ddilynol.

Daw'r ail enghraifft o Swydd Caer mor ddiweddar â 1893. Mae'n sôn am ŵr o'r enw Joseph Knowles oedd yn denant Yew Tree Farm yn Appleton. Y perchennog oedd Colonel Warburton o Arley Hall, cyrnol yn y Cheshire Yeomanry. Yn ôl y cytundeb, roedd angen i'r tenant roi pedwar diwrnod y flwyddyn o *'boon work'* i'w feistr, rhoi cosyn o gaws am ddim iddo a pharatoi dyn a cheffyl i'r *Cheshire Yeomanry*. Adroddwyd fod y *'boon work'* wedi ei ddiddymu yn ddiweddar ond fod y caws yn parhau i gael ei hawlio. Roedd Joseph yn gwrthod gwasanaethu yn y *Cheshire Yeomanry* ond yn ddigon bodlon rhoi ceffyl ac un o'i weision i weithredu ar ei ran. Gwrthodwyd ei gynnig a chafodd rybudd i ymadael â'r fferm. Bu'n rhaid iddo werthu ei holl stoc a'i beiriannau mewn ocsiwn a gynhaliwyd ar y fferm.

Mae'n ymddangos fod *'boon work'* wedi diflannu erbyn dechrau'r ganrif ddiwethaf. Beth felly ddigwyddodd i'r *'boon lands'* yn Llanddeiniolen? Fel yr adroddwyd yn gynharach, traddodiad yn hytrach na gwybodaeth ffeithiol oedd yn honni fod rhai o chwarelwyr y fro yn rhoi llafur o tua phedwar diwrnod am ddim i gynhaeafu ar fferm gartref y Faenol. Ond os oedd gwirionedd yn hyn, yna mae'n debygol mai chwarelwyr wedi codi bythynnod ar y *'boon lands'* oedd y rhai roddai lafur am ddim. Naturiol oedd i Assheton Smith godi rhent arnynt, ac i sylweddoli yn fuan iawn fod cael rhent rheolaidd o'r bythynnod yn llawer mwy proffidiol na phedwar diwrnod o lafur heb dâl!

A dyna, mae'n siŵr a ddigwyddodd. Mor gynnar â 1778, mae o leiaf ddeg o dai ar y Waunfawr ger Penisarwaun; rhai ohonynt yn sicr ar y *'boon land'*. Maent yn cael eu rhestru fel *'cottages and garden'*, ond ni roddir enw preswyliwr ar gyfer yr un ohonynt. Nid yw tir Bryn yr Efail Mawr, sydd hefyd yn *'boon land'*, wedi ei hawlio gan dyddynwyr-chwarelwyr eto, ond ar y tir hwn yr adeiladwyd rhannau o bentref presennol Brynrefail. Ar *'boon land'* Cefn y Braich yr adeiladwyd rhai o dai cyntaf Rhiwlas, ac ym 1778 mae *'cottages'* yn cael eu rhestru yno. Enwir ambell un oedd yn byw yn y bythynnod hyn, ond eto, mae'n amlwg nad oeddent yn parhau i fyw yno, gan fod y trigianydd yn cael ei ddisgrifio fel *'late William John Pierce; late Robert Prichard, late Richard Hughes a late Humphrey Bevan'*. Ond hyd yn oed ym 1778, nid yw'r term *'boon land'* yn ymddangos yn yr Arolwg.

Nid yw'r term yn ymddangos chwaith gogyfer â Seion (nid yw Seion yn cael ei enwi ym 1778 oherwydd nad oedd capel yno), ac mae'n debyg fod y tir ble'r adeiladwyd y capel yn rhan o fferm Pen yr Hwylfa (Ty'n yr Allt). Ond mae'r term *'boon land'* yn ymddangos ar y Map Degwm – a hynny gryn ugain mlynedd wedi adeiladu'r capel arno. Beth felly oedd telerau Assheton Smith gyda'r Wesleaid pan adeiladwyd y capel ym 1818? A oedd yr aelodau Wesleaidd cyntaf yn helpu gyda'r cynhaeaf yn y Faenol? Neu a oedd y meistr tir yn ddigon bodlon derbyn rhent am yr hawl i godi'r capel yma? Byddai'n ddiddorol gweld gweithredoedd y capel cyntaf hwn. Ac fel yn achos Rhiwlas, Brynrefail a Waen Penisarwaun, ar y tir hwn yr adeiladwyd nifer o dai diweddarach Seion.

Byddai hefyd yn ddiddorol gwybod a oedd R O Roberts yn ymwybodol o'r bedwaredd llain tir ym mhlwyf Llanddeiniolen oedd yn cario'r enw *'boon land'*. Yn ei erthygl yn *Folk Life* dywed: *"Enquiries over a number of years failed to find any evidence of the use of the term in other places".* Ond yr oedd un yn llawer nes at adref nag a feddyliai, a hynny yn Seion.

**Peiriannydd milwrol ar Foel Eilio.**
Ar raglen foreol Aled Hughes yn ddiweddar, soniwyd am lyfr prin a ddaeth i feddiant y Llyfrgell Genedlaethol. Cafodd ei gyhoeddi ym 1778. Ei deitl llawn yw *Experiments and Observations made in Britain in order to obtain a rule for measuring heights with a Barometer.* Yr awdur oedd William Roy, Albanwr a fu'n mapio ei wlad enedigol ar orchymyn y brenin ac a fu'n creu mapiau i'w defnyddio gan y fyddin. Ym 1775, bu ar ymweliad â'r ardal hon er mwyn creu map manwl o Eryri, ac mae'n ymddangos yn ôl y wybodaeth yn y llyfr, mai oddi ar gopa Moel Eilio y bu'n gwneud llawer o'i fesuriadau.

Bu William Roy farw ym 1790, a blwyddyn yn ddiweddarach sefydlwyd yr *Ordnance Survey*. Manylder a chywirdeb William Roy yn ei fapiau cynharach oedd y sylfaen, a chaiff ei gydnabod yn aml fel sefydlydd yr O.S. Mae'n dda cofio fod mynydd o fewn ein bro ni wedi chwarae rhan allweddol mewn sefydlu corff sy'n parhau i baratoi mapiau o'r safon uchaf.

Os oes unrhyw ymholiad gennych am unrhyw agwedd o hanes lleol bro'r "Eco" yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Gwynedd LL55 4BA, neu ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch: dafydd.wthomas@btinternet.com

# Ffarwel i ddau o gewri Cymru

Yn ystod y mis diwethaf fe gyhoeddodd dau o gewri Cymru y byddent yn ymddeol o bêl-droed rhyngwladol. Chris Gunter a Helen Ward yw'r ddau ddiweddaraf i roi'r gorau i wisgo'r crys coch, yn dilyn cyhoeddiadau Gareth Bale a Joe Allen yn gynharach yn y flwyddyn.

Chris Gunter. Ble mae rhywun yn dechrau? Y dyn cyntaf i gyrraedd y garreg filltir o ennill 100 o gapiau i Gymru. Fe enillodd ei gap cyntaf yn erbyn Seland Newydd yn Wrecsam yn 2007, diolch i John Toshack. 109 cap yn ddiweddarach, mae'n cyhoeddi na fydd yn chwarae i Gymru eto. Daeth ei 100fed cap yn 2021 yn erbyn Mecsico. Er nad fo oedd ein chwaraewr gorau o bell ffordd, Chris Gunter oedd un o'r, os nad y mwyaf angerddol. Roedd chwarae i'r ddraig yn golygu cymaint iddo. Mae'n dangos pa mor allweddol oedd o i'r garfan am iddo gyrraedd dros 100 o gapiau! Dim ond 8 chwaraewr arall sydd wedi cyrraedd y garreg filltir honno.

Mae wir yn anodd rhoi mewn i geiriau faint oedd Gunter yn ei olygu i gefnogwyr Cymru. Roedd yn '*fan favourite*' go iawn. Yn sicr, fo oedd fy chwaraewr gorau i! Mae wedi bod yn was anhygoel i Gymru ar hyd y blynyddoedd ac wedi bod yn chwaraewr mor ddibynadwy a chadarn. Roedd ei enw yn un o'r cyntaf ar y rhestr carfan.

Fe chwaraeodd Chris Gunter pob munud o bob gêm i Gymru yn Ewro 2016 a phwy all anghofio'r croesiad arbennig i Sam Vokes yn erbyn Gwlad Belg!



Yn ddiweddar, nid yw Chris Gunter wedi bod yn chwarae yn rheolaidd ac mae wedi cael ei ddefnyddio fel eilydd gan amlaf. Mae'r penderfyniad yn gwneud synnwyr ond dydi hynny ddim yn ei wneud yn haws i'w dderbyn. Mi fydd yn sicr yn golled enfawr ar y cae ac oddi ar y cae. Roedd yn ffigwr amlwg yn yr ystafell newid ac yn berson roedd y bechgyn ifanc yn edrych fyny ato.

Y peth oedd yn gwneud Chris Gunter yn arbennig fel chwaraewr, oedd ei berthynas gyda'r cefnogwyr. Mi roedd o yn pontio'r tîm gyda'r cefnogwyr yn well na neb arall! Dwi'n siwr y bydd Chris Gunter yn gwylio Cymru fel cefnogwr ac mi fyddaf yn edrych ymlaen at ei weld ar drip WalesAway! Gyda Chris Gunter, Joe Allen a Gareth Bale yn ymddeol nawr, mae wir yn teimlo fel diwedd cyfnod. Diwedd cyfnod oes aur pêl-droed Cymru.

Ond, nid Chris Gunter oedd yr unig un i gyhoeddi ei ymddeoliad o'r tîm rhyngwladol ddechrau mis Mawrth. Wythnos yn gynharach fe gyhoeddodd Helen Ward ei bod hi'n ymddeol. Gyda 105 o gapiau i Gymru a 44 gôl, hi yw prif sgoriwr Cymru! Enillodd ei chap cyntaf yn 2008 yn erbyn Luxembourg ac fe sgoriodd gôl yn y gêm honno hefyd! Cychwyn da i yrfa lewyrchus iawn yn y crys coch.

Mae Helen Ward wedi bod yn fodel rôl go iawn i ferched ifanc y garfan ac mae beth mae hi wedi ei gyflawni nid yn unig i bêl-droed Merched Cymru ond i bêl-droed merched yn anhygoel. Mi fydd yn rhyfedd iawn gweld Merched Cymru heb Helen Ward, gan iddi fod yn rhan mor allweddol o'r garfan am gymaint o flynyddoedd!

Mae'n drist na chafodd y cyfle i gynrychioli Cymru mewn twrnament fel yr Ewros neu Gwpan y Byd ond mae hi wedi bod yn allweddol yn rhoi sylfaen i'r garfan anelu at yr uchderau hynny! Fel y dywedodd hi yn ei datganiad, mi fydd hi yn eu cefnogi o'r eisteddle pan fydd yr amser yn cyrraedd. Mi roedd Helen Ward wastad yn rhoi 100% i Gymru, ac ar mai eilydd oedd hi gan amlaf erbyn diwedd ei gyrfa, doedd hynny ddim yn newid ei balchder a'i hegni unwaith yr oedd hi yn camu ar y cae.

Yn sicr mae Christ Gunter a Helen Ward wedi bod yn ffigyrau allweddol i Gymru ar hyd y blynyddoedd ac mi fydd yn rhyfedd iawn arfer efo bêl-droed Cymru hebddyn nhw. Dau o gewri'r timau cenedlaethol heb os nac oni bai.

**Mared Rhys Jones**

## Y Bêl Gron – Llanberis a Llanrug

Ar ôl diwedd da i 2022 i Lanberis, dechreuodd 2023 gyda buddugoliaeth o 3-1 yn erbyn y tîm ar waelod y Gynghrair, sef Pentraeth, gan ymestyn eu rhediad i 6 buddugoliaeth yn olynnol.

Yna, taith lawr i dde Cymru oedd hi, i ardal Port Talbot ym Mhumed Rownd Tlws Cymru i wynebu Baglan Dragons o Gynghrair Ardal De Ddwyrain. Er perfformiad gwych gan y Darans, colli o 1-0 oedd hi yn erbyn tîm a gollodd yn ffeinal y gystadleuaeth yma'r llynedd.

Yn ôl i'r Gynghrair wedyn a cholli i Bethesda Athletic o 3-1: tîm oedd ar frig y Gynghrair, a Llanberis yn chwarae am awr gyda deg dyn yn dilyn cerdyn coch i'r gôl geidwad. Cafwyd buddugoliaeth o 2- 1 oddi cartref yn Nhalysarn Celts, tîm oedd yn ddi-guro gartref yn y Gynghrair cyn hynny. Dilynwyd hynny gyda buddugoliaeth arall o 6-0 yn erbyn Gwalchmai.

Wedyn cafwyd dwy golled: 2-0 yn Llannerchymedd yn y Gynghrair, a cholli gartref i Gwalchmai yng Nghwpan y Gynghrair. Gyda gemau Cynghrair yn weddill â gemau wrth gefn, mi allai'r Darans gau'r bwlch ar y ceffylau blaen.

Lawr y ffordd yn Eithin Duon, roedd Llanrug un safle o waelod y tabl ar ddechrau 2023, ond nid oedd y safle yn adrodd y stori gan fod y tim wedi chware llai o gemau Cynghrair na nifer o'r timau o'i gwmpas. Roedd hi'n gychwyn da i'r flwyddyn gyda buddugoliaeth o 6-2 yn Llannerchymedd. Yna, gêm gyfartal 2-2 oddi cartref yn Nhalysarn oedd yn y 3 safle uchaf cyn y gêm. Wedyn, chwip o gêm a 10 gôl ar Eithin Duon wrth i Lanrug guro Nefyn o 6 gôl i 4.

Daeth y rhediad da ar ddechrau 2023 i ben wrth i Lanrug golli yn erbyn Glantraeth. Ond parhau mae'r dechrau da i'r flwyddyn gyda dwy fuddugoliaeth oddi cartref, o 4-2 ym Mhentraeth a 6-2 yn erbyn Penrhyndeudraeth, gan godi i ganol y tabl. Dilynwyd hynny gyda thrydedd buddugoliaeth yn olynnol, yng Nghwpan y Gynghrair yn erbyn Mynydd Llandegai: ar ôl bod dwy gôl lawr, ennill y gêm 3-2 a sicrhau lle yn rownd yr 8 olaf.

Cawn weld sut fydd 2023 yn parhau i'r ddau dîm gyda nifer o gemau'n weddill hyd ddiwedd y tymor. Dwi'n siwr y bydd y ddau dîm yn edrych ymlaen at wynebu ei gilydd yn y gemau darbi, a'r gyntaf ohonynt ar Ffordd Padarn ddechrau Ebrill.

**Elgan Rhys Jones**

ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >